



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council



Gwasanaethau Cymdeithasol, lechyd a Thai Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr 2023-24

www.npt.gov.uk

Cynnwys

Rhagair	3
Crynodeb y Cyfarwyddwr o Berfformiad	4
Blaenoriaethau ar gyfer 2023-24: Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud a'r hyn a gyflawnwyd gennym.	6
Sut mae pobl yn llunio ein gwasanaethau?	13
Safon Ansawdd 1 - Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni.	15
Safon Ansawdd 2 – Rydym yn gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl.....	21
Safon Ansawdd 3 - Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed	28
Safon Ansawdd 4 -Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.	43
Safon Ansawdd 5 - cefnogi pobl i ddatblygu’n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach.....	47
Safon Ansawdd 6 – Trwy weithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol, a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.	52
Sut rydyn ni'n gwneud yr hyn rydyn ni'n ei wneud.....	58
Ein gweithlu a sut rydym yn cefnogi eu rolau proffesiynol	58
Ein hadnoddau ariannol a sut rydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol	63
Ein gwaith partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd	66
Edrych ymlaen: Ein blaenoriaethau ar gyfer 2024-25	67
Atodiad - Data sy'n cefnogi perfformiad ar gyfer y safonau ansawdd	69

Rhagair



Croeso i'm hadroddiad blynyddol yn adlewyrchu'r cyfnod rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024. Mae wedi bod yn flwyddyn gyffrous arall ac yn un gyda chanlyniadau cymysg. Gan ddechrau ar nodyn cadarnhaol, gwelsom ostyngiad unwaith eto yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal, ac rydym yn parhau i gefnogi pobl sy'n ffoi o'r rhyfel yn Wcráin yn ogystal â ffoaduriaid o Afghanistan.

Fodd bynnag, mae'r sector gofal cymdeithasol yn parhau i brofi canlyniadau pandemig Covid. Mae ein Timau Iechyd Meddwl Cymunedol yn gweld mwy o atgyfeiriadau. Mae nifer o ddarparwyr yn dal i brofi heriau recriwtio a chadw staff. Yn fwy arwyddocaol, fodd bynnag, oedd cau'r cartref gofal mwyaf i bobl hŷn yng Nghastell-nedd Port Talbot, gyda 90 o welyau a mwy na 70 o breswylwyr.

Mae'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol a'r sector gofal cymdeithasol yn benodol wedi'u hailadrodd droeon, ond mae'r flwyddyn nesaf yn debygol o fod yn un o'r adegau anoddaf y mae unrhyw un ohonom sy'n gweithio ym maes gwasanaethau cymdeithasol wedi'i brofi. Mae tynhau cyllidebau yn golygu na fydd gennym unrhyw ddewis ond gwneud pethau'n wahanol. Bydd hyn bron yn sicr yn golygu gwneud penderfyniadau anodd - hyd yn oed i'r sefyllfa o weld gwasanaethau'n cael eu lleihau.

Er mwyn lliniaru hyn cyn belled ag y bo modd, rydym yn parhau i hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio, megis mwy o ddefnydd o Dechnoleg Gynorthwyol i helpu pobl i gynnal annibyniaeth yn eu cartrefi eu hunain. Ond mae'n rhaid i ni hefyd ddod yn ddoethach yn y ffordd yr ydym yn gwario arian trethdalwyr. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld ymdrechion i arbed arian lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys dod â gwasanaethau yn fewnol, lle credwn y bydd hyn yn cefnogi'r cyngor i gael gwell rheolaeth ar wasanaethau. Mae hyn yn rhan o agenda Ailgydbwyso Gofal Llywodraeth Cymru, a byddwch yn gweld mwy o gynnydd ar hyn yn y flwyddyn i ddod.

Rydym hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar degwch o'r gwasanaethau a ddarperir. Yn syml, rydym am sicrhau nad yw pobl yn colli gwasanaethau hanfodol gan y gallai eraill fod yn derbyn mwy nag sydd ei angen arnynt.

Ond rydyn ni yn CNPT yn wydn ac yn arloesol, gan weithio'n agos gydag Aelodau Arweinyddiaeth y Cyngor, partneriaid rhanbarthol a darparwyr lleol. A byddwn

yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl fregus ein cymunedau.

Andrew Jarrett

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai

Crynodeb y Cyfarwyddwr o Berfformiad

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd gan 2,456 o oedolion gynllun gwasanaeth a gofal (o'i gymharu â 2,117 yn y flwyddyn flaenorol), cynnydd o 16%, tra bod y rhai 65+ oed a oedd yn derbyn gwasanaeth yn 1,793 (1,788 y flwyddyn flaenorol). Mae'r cynnydd yn rhannol oherwydd y nifer fwy o atgyfeiriadau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl a chanlyniad parhaus y pandemig. Hefyd yn ystod y flwyddyn cwblhawyd 1,948 o asesiadau newydd ar gyfer oedolion, gyda bron i hanner (43%) ohonynt ond yn gallu cael eu hanghenion yn cael eu diwallu gyda chynllun gofal a chymorth.

Mae pobl fel arfer yn hapusaf yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain, gydag ychydig iawn o ymyrraeth gan Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Y llynedd roedd nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn 289, i fyny 55% ar y 186 o becynnau'r flwyddyn flaenorol.

Derbyniwyd dros 16,300 o gysylltiadau ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn, 2,000 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Er gwaethaf hyn, mae nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn parhau i ostwng, sef 251 (yr oedd 17 ohonynt yn Blant ar eu pen eu hunain sy'n Ceisio Lloches) ar ddiwedd mis Mawrth 2024, i lawr o 260 yn y flwyddyn flaenorol.

Gwelsom hefyd ostyngiad yn nifer cyfartalog y diwrnodau roedd plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn, gan ostwng o 269 i 228 diwrnod.

Mae'r sector Gofal Cymdeithasol yn dal i brofi heriau o ran sefydlogrwydd darparwyr. Yn ystod y flwyddyn caeodd dau gartref gofal i bobl hŷn, sy'n cynrychioli dros 10% o'r gwelyau sydd ar gael yn lleol, ac o ganlyniad roedd yn rhaid symud dwsinau o bobl agored i niwed i gartrefi gofal eraill. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r sector ehangach i sicrhau bod gennym ddarpariaeth gwasanaeth gynaliadwy, gan fod darparwyr gofal cartref yn dal i brofi heriau recriwtio a chadw staff.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i hyrwyddo gwasanaethau Atal ac Ymyrraeth Gynnar i helpu pobl i fyw yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain cyhyd ag y bo modd. Mae hyn yn cynnwys cynyddu'r defnydd o Dechnoleg Gynorthwyol a'r Gwasanaeth Ymateb Symudol i ddelio â galwadau nad ydynt yn rhai brys.

Mae ein cefnogaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl yn parhau i gynyddu. Y llynedd cafodd 304 o asesiadau gofalwyr oedolion eu cwblhau, i fyny o 225 yn y flwyddyn flaenorol.

Yn ystod y flwyddyn cafodd 97% o asesiadau plant eu cwblhau o fewn y targed o 42 diwrnod ar ôl i rywun gael ei atgyfeirio, tra bod y defnydd o leoliadau preswyl a chartrefi gofal i blant wedi aros ar yr un lefel â'r llynedd.

Gan adlewyrchu agenda Ailgydbwysu Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ymgymryd â'r gwaith paratoi angenrheidiol i ddod â'r Gwasanaeth Lleoliadau Teuluol i Oedolion yn ôl yn fewnol, gyda'r gwasanaeth newydd yn mynd yn fyw ar 1 Mai 2024. Dyma'r cyntaf o nifer o wasanaethau y rhagwelir y byddant yn dod yn fewnol yn ystod y flwyddyn bresennol.

Mae nifer cyffredinol y plant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau eiriolaeth wedi cynyddu 21.2% yn CNPT dros y 12 mis diwethaf oherwydd ymdrechion parhaus i wreiddio eiriolaeth o fewn ymarfer lleol.

Er bod nifer y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a gwblhawyd wedi cynyddu i 293, i fyny o 272 yn ystod y flwyddyn flaenorol, mae'r amser a gymerir i gyflawni (rhwng atgyfeirio a chwblhau) wedi cynyddu o 245 i 325 diwrnod. Mae hyn oherwydd bod rhai tasgau sydd wedi bodoli ers tro wedi'u cwblhau a'u cau o'r diwedd.

Chwaraeodd ein Huned Gomisiynu ran weithredol ac allweddol wrth gau cartref gofal i bobl hŷn yn ystod y flwyddyn. Roedd yn ymarfer logistaidd enfawr oedd yn cynnwys yr angen i drosglwyddo tua 70 o bobl i gartrefi gofal eraill yn yr ardal. Yn anffodus roedd hyn yn angenrheidiol, ond mae'n tynnu sylw at gyfrifoldeb y Cyngor i sicrhau bod anghenion gofal cymdeithasol pobl agored i niwed yn cael eu diwallu.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr a phartneriaid ar draws y Cyngor yn ogystal â'r rhai yng Nghyngor Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, y trydydd sector a Phartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

Gellir dod o hyd i ddata pellach sy'n tynnu sylw at nifer o fesurau drwy gydol y ddogfen hon.

Gosodom nifer o flaenoriaethau allweddol ar gyfer y gyfarwyddiaeth y llynedd i sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl CNPT. Mae ein cynnydd wrth gwrdd â'r rhain wedi'i nodi yn yr adran isod.

Blaenoriaethau ar gyfer 2023-24: Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud a'r hyn a gyflawnwyd gennym.

Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

- **Digonedd lleoliadau:** Rydym wedi ymrwymo i ddull sy'n rhoi plant – a theuluoedd - yn gyntaf. Byddwn yn gweithio gyda theuluoedd i'w helpu i aros gyda'i gilydd, ond byddwn hefyd yn sicrhau bod digon o leoliadau maeth ar gael i'r rhai sydd angen amgylchedd diogel a sefydlog.
 - ✓ Rydym yn parhau i ddatblygu ein recriwtio a chadw staff ac mae gennym amserlen farchnata ar waith
 - ✓ Rydym wedi gweld cynnydd mewn ymholiadau, ac rydym yn dechrau gweld cynnydd araf yn yr ymholiadau sy'n mynd ymlaen i asesiadau
 - ✓ Rydym wedi lansio ein maethu a mwy i chwilio am ofal cam-i-lawr o ofalwyr maeth gofal preswyl
- **Recriwtio, cadw a datblygu gweithlu medrus iawn:** Pan fydd gan weithwyr cymdeithasol yr offer a'r amser i wneud eu gwaith yn dda, mae'n gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau plant a theuluoedd. Rydym eisiau gweithiwr cymdeithasol sy'n cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi ac sy'n fedrus iawn ar gyfer pob plentyn a theulu sydd angen un.

Rydym wedi:

- ✓ Cael blwyddyn lwyddiannus iawn o recriwtio
- ✓ Parhau i hyrwyddo lles staff yn weithredol fel modd o gadw staff; hyrwyddo diwylliant gwaith cadarnhaol gyda chymorth AD, llwythi achosion isel, cefnogaeth reoli gyson a goruchwyliaeth reolaidd
- ✓ Mynd i brifysgolion i drafod CNPT a recriwtio. Mae PO wedi mynd i Golegau a Phrifysgolion, gan gyflwyno sut brofiad yw gweithio yn CNPT, gan gynnwys y model sy'n seiliedig ar gryfderau, mewn diwrnodau agored
- ✓ Cynnal Ffeiriau Swyddi ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso
- ✓ Darparu hyfforddiant rheolaidd, gan gynnwys uwch swyddogion a swyddogion hyfforddi yn darparu hyfforddiant "mewnol"
- ✓ Hyrwyddo CNPT ar lefel fwy cenedlaethol, gan gyflwyno ein model ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. O ganlyniad, rydym yn denu ymgeiswyr o bob rhan o Gymru a Lloegr.

- ✓ Cael gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol yn cyflwyno ar feysydd arbenigedd mewn prifysgolion, dan oruchwyliaeth Prif Swyddog
- ✓ Cyflwyno lleoliadau blwyddyn 10 ar gyfer ysgolion uwchradd lleol yn CNPT i adeiladu llwybrau gyrfa i mewn i Waith Cymdeithasol yn gynnar
- ✓ Cynyddu nifer yr aseswyr ymarfer yn y gwasanaeth sy'n golygu ein bod yn gallu cynnal mwy o fyfyrwyr. Mae myfyrwyr yn eu blwyddyn olaf o gael eu lleoli yn dewis aros yn CNPT i ddechrau eu gyrfaedd mewn gwaith cymdeithasol

➤ **Galw a chymhlethdod:** I'r mwyafrif o blant, y lle gorau iddyn nhw fod yw gartref gyda'u teulu, ond mae angen cymorth ar rai teuluoedd i wneud hyn. Byddwn yn rhoi cymorth penodol ac wedi'i dargedu i deuluoedd sy'n wynebu amrywiaeth o heriau.

Rydym wedi:

- ✓ Parhau i roi cynigion cynnar o gymorth i blant a theuluoedd
- ✓ Parhau i weithio ar y cyd â phartneriaid i sicrhau bod teuluoedd yn cael y cymorth cywir ar yr adeg briodol
- ✓ Parhau i gefnogi teuluoedd i gyflawni eu canlyniadau
- ✓ Parhau i weithio gyda'r ethos bod anghenion plant yn cael eu diwallu orau gan eu teuluoedd eu hunain, a rhoi cefnogaeth i hyn gael ei gyflawni'n ddiogel
- ✓ Datblygu gwasanaeth 'Cadw'n Ddiogel' mewn ymateb i bryder cynyddol ynghylch pobl ifanc yn cario cyllyll a bod mewn mwy o berygl o gael eu hecsbloetio, er mwyn tarfu ar yr ymddygiadau hyn a darparu ymwybyddiaeth a chefnogaeth. Gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, mae'r gwasanaeth Cadw'n Ddiogel wedi cefnogi pobl ifanc, eu teuluoedd a'u staff ar y risgiau sy'n gysylltiedig â chamfanteisio, trais a throseddau â chyllyll
- ✓ Sefydlu'r Gwasanaeth Gweithio Gyda'n Gilydd, sy'n arbenigo mewn cefnogi teuluoedd lle mae pryderon ynghylch esgeulustod a/neu amodau yn y cartref. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig cymorth ymarferol yn ogystal â defnyddio cyfweld ysgogiadol i ddatblygu hyder teuluoedd a meithrin eu sgiliau. O ystyried y cynnydd mewn costau byw ac effaith tlodi/amddifadedd, mae'r gwasanaeth hwn wedi parhau i fod yn rhan annatod o gefnogi teuluoedd

- ✓ Parhau i weld cynnydd yn y galw yn ein cyfraddau atgyfeirio wrth i anghenion teuluoedd ddod yn fwyfwy cymhleth, i fyny 15% o flwyddyn i flwyddyn i dros 20,000 o atgyfeiriadau
- ✓ Gweld effaith ehangach costau byw uwch. Mae lles emosiynol a meddyliol pobl ifanc yn angen parhaus ac mae bwlch mewn gwasanaethau sy'n cefnogi'r bobl ifanc hyn. Mae grwpiau rhanbarthol wedi'u sefydlu i ystyried sut rydym yn diwallu anghenion lles emosiynol pobl ifanc
- ✓ Gweld pwysau ychwanegol mewn ysgolion gyda chynnydd yn nifer y bobl ifanc ar amserlenni llai/wedi'u heithrio sy'n cynyddu'r risgiau y tu allan i gartref y teulu
- ✓ Rhoi adnoddau i'n Pwynt Cyswllt Unigol er mwyn ymateb i'r cynnydd yn y galw i sicrhau ein bod yn ymateb yn gymesur ac yn amserol. Mae'r holl atgyfeiriadau a dderbynnir yn y gwasanaeth yn cael eu gweld a'u gweithredu gan reolwr tîm Gwaith Cymdeithasol o fewn 24 awr

Gwasanaethau Oedolion

- **Helpu pobl i helpu eu hunain:** Byddwn yn hyrwyddo hunanofal ac yn helpu pobl i aros yn eu cymunedau eu hunain heb fawr o ymyrraeth.
 - ✓ Mae'r thema gyffredinol hon yn canolbwyntio ar rymuso unigolion i helpu eu hunain a'u cefnogi i aros yn eu cymunedau eu hunain heb fawr o ymyrraeth. Cyflawnir hyn trwy ddull amlweddol sy'n cynnwys hyrwyddo hunanofal trwy addysg a mynediad at adnoddau, cynnig cymorth i lywio gwasanaethau gyda chynlluniau cymorth wedi'u teilwra, lleihau ymyrraeth trwy fesurau ataliol fel asesiadau diogelwch yn y cartref a monitro iechyd, adeiladu rhwydweithiau cymorth cymunedol, a grymuso unigolion trwy dechnoleg gynorthwyol. Trwy ganolbwyntio ar y meysydd allweddol hyn a defnyddio arbenigedd gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol, nod yr adran yw gwella ansawdd bywyd unigolion tra hefyd yn cyfrannu at gynaliadwyedd systemau iechyd a gofal cymdeithasol trwy leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys.
- **Meithrin perthnasoedd a gwneud cysylltiadau:** Pobl yw'r ased pwysicaf sydd gennym yn CNPT. Dyma'r berthynas rhwng teulu a ffrindiau, rhwng y rhai sy'n derbyn a rhoi gofal, o fewn cymunedau, a rhwng busnesau, gweithwyr a chwsmeriaid sy'n cael yr effaith fwyaf ar fywydau pobl.

- ✓ Mae dull cydweithredol CNPT yn cynnwys cynnal asesiadau tymor byr cynhwysfawr, grymuso unigolion trwy wybodaeth gywir, rhoi cyngor personol, cynnig cymorth cefnogol, meithrin perthnasoedd cryf gydag unigolion a'r gymuned, a hyrwyddo cysylltiadau cymunedol i wella lles a lleihau teimlo'n ynysig. Trwy flaenoriaethu perthnasoedd a chysylltiadau cymunedol, nod CNPT yw helpu unigolion i gynnal eu hannibyniaeth a ffynnu heb fawr o ymyrraeth, gan gael effaith gadarnhaol yn y pen draw ar eu bywydau a'u lles.

- **Byw y bywyd rydych chi ei eisiau:** Byddwn yn parhau i hyrwyddo ataliaeth ac ymyrraeth gynnar yn ogystal â gofal a chymorth anffurfiol. Ond bydd bob amser pobl sydd angen gofal a chymorth mwy ffurfiol. Dylai hyn roi'r unigolyn yn gyntaf fel bod eu canlyniadau a ddymunir - sut maen nhw eisiau byw - yn cael eu bodloni.

- ✓ Ein cenhadaeth yw grymuso unigolion i fyw'r bywydau maent yn eu dymuno trwy ganolbwyntio ar eu nodau a'u canlyniadau personol. Rydym yn pwysleisio ataliaeth, ymyrraeth gynnar a gofal anffurfiol i sicrhau'r ddibyniaeth leiaf posibl ar gefnogaeth ffurfiol. Mae ein hasesiadau cyfannol, a gynhelir gan weithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol, yn blaenoriaethu anghenion a nodau unigol. Trwy ddarparu gwybodaeth a chynghor cynhwysfawr, rydym yn galluogi gwneud penderfyniadau gwybodus a hunanreolaeth, gan feithrin annibyniaeth. Mae rhwydweithiau ymyrraeth gynnar a chymorth yn helpu i fynd i'r afael â materion yn brydlon, tra bod addasiadau i'r cartref a rhaglenni iechyd yn gwella diogelwch a lles. Mae ein cynlluniau cymorth wedi'u teilwra yn sicrhau'r ymyrraeth leiaf posibl, gan hyrwyddo ymreolaeth ac ansawdd bywyd. Mae'r dull integredig hwn yn cefnogi unigolion i gynnal eu hannibyniaeth a byw'n gyfforddus yn eu cartrefi eu hunain.

Gwasanaethau Tai a Digartrefedd

Gweithredu dull mwy strategol: Byddwn yn gweithio'n agosach gyda phartneriaid ac adrannau eraill y Cyngor i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau.

- ✓ Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein Gwasanaethau Tai a Digartrefedd wedi mabwysiadu dull mwy strategol, gan weithio'n agos gyda

phartneriaid ac adrannau eraill y Cyngor i wneud y gorau o'n hadnoddau yn effeithiol. Mae ein tîm rhyngddisgyblaethol, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, a gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol ar dai sydd newydd ei benodi, yn canolbwyntio ar helpu unigolion i aros yn eu cartrefi heb fawr o ymyrraeth. Trwy asesiadau tymor byr cynhwysfawr, rydym yn nodi anghenion penodol ac yn darparu cynlluniau cymorth wedi'u teilwra i wella annibyniaeth. Mae ein gwerthusiadau cyfannol a'n datrysiadau addasol, megis addasiadau i'r cartref a dyfeisiau cynorthwyl, yn sicrhau diogelwch a symudedd. Rydym hefyd yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth manwl i rymuso unigolion a'u teuluoedd. Mae'r ymgynghorydd ar dai yn chwarae rhan hanfodol wrth asesu addasrwydd tai, argymell addasiadau, a chysylltu â gwasanaethau tai. Mae cydweithio strategol gydag adrannau'r Cyngor a chryfhau partneriaethau cymunedol wedi bod yn allweddol i'n llwyddiant, gan sicrhau bod gwasanaeth integredig, effeithlon yn cael ei ddarparu. Yn ogystal, ein nod yw lleihau digartrefedd trwy sicrhau ei fod yn digwydd yn anaml, yn fyrhoedlog, ac nid yw'n digwydd eto. Mae'r strategaeth gydweithredol, gynhwysfawr hon nid yn unig yn hyrwyddo annibyniaeth ond hefyd yn gwella ansawdd bywyd y rhai rydym yn eu gwasanaethu. Rydym am sicrhau bod digartrefedd yn digwydd yn anaml, a phan fydd yn digwydd mae'n fyrhoedlog ac nid yw'n digwydd eto.

- **Cynyddu mynediad at dai fforddiadwy priodol:** Rydym am weithio gyda landlordiaid ac eraill i gynyddu faint o lety sydd ar gael.
- ✓ **Eiddo gwag:** Mewn ymateb i nifer yr eiddo gwag hirdymor ledled Cymru, datblygwyd y Cynllun Cartrefi Gwag gan Lywodraeth Cymru (LIC) i ddarparu cymorth grant i berchnogion eiddo gwag hirdymor er mwyn iddynt wneud y gwaith gofynnol i ddefnyddio'r eiddo unwaith eto.
 - ✓ Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £50 miliwn ledled Cymru i ariannu'r Cynllun am gyfnod o ddwy flynedd. Mae pob Awdurdod Lleol sy'n cymryd rhan wedi cael cyfran o'r cyllid yn seiliedig ar nifer yr eiddo gwag sydd wedi'u cofrestru yn ardal yr Awdurdod.
 - ✓ Mae CNPT wedi derbyn 4.8% o'r £50 miliwn sydd ar gael, sy'n cyfateb i £2.4 miliwn dros ddwy flynedd y Cynllun gyda chyfraniad gofynnol gan yr awdurdod o 10%. Gallai'r Cynllun hwn arwain at ddefnyddio dros 100 o eiddo gwag eto ar draws Castell-nedd Port Talbot dros gyfnod y Cynllun.
 - ✓ Ar gyfer y Flwyddyn Ariannol cafodd 54 atodlen eu paratoi a'u pasio ar gyfer prosesu, sy'n cyfateb i werth £1.6m o waith a wnaed.

- ✓ **Cynllun prydlesu:** Ar hyn o bryd ni fu unrhyw ddefnydd gan Landlordiaid Preifat, mae'r cynllun wedi cynhyrchu nifer fawr o ymholiadau a ddilynwyd gan 28 o ddatganiadau o ddiddordeb. Y prif reswm pam nad oes unrhyw landlordiaid yn cymryd rhan yn y cynllun yw am fod Llywodraeth Cymru wedi capio'r rhent ar y lwfans tai lleol. Gall Landlordiaid Preifat gael elw llawer gwell trwy ddod o hyd i gleientiaid eu hunain neu ddefnyddio asiant gosod eiddo y stryd fawr, felly nid yw hyn yn cael ei ystyried yn opsiwn ymarferol. (*Amcangyfrif - £750-£1200*).
- ✓ Er mwyn ceisio ysgogi'r farchnad, cynhaliwyd 'Digwyddiad Fforwm Landlordiaid Rhentu Preifat' a fu'n hynod gadarnhaol. Daeth dros 100 o landlordiaid, a chafwyd adborth defnyddiol, a bydd y digwyddiadau hyn yn parhau. Mae safonau eiddo Llywodraeth Cymru wedi'u hadolygu a allai bellach fod yn fwy deniadol i landlordiaid ac mae cyswllt yn cael ei wneud gyda landlordiaid a wrthodwyd yn wreiddiol yn seiliedig ar safonau blaenorol.

Cefnogi'r rhai sydd ag anghenion gofal cymdeithasol i fyw'n dda yn eu

cymunedau: Byddwn yn cynnig modelau gofal newydd i helpu pobl i fyw yn eu cymunedau yn hirach, p'un a ydynt yn hŷn, yn anabl neu'n bobl ifanc sy'n gadael gofal.

- ✓ Rydym wedi ymrwymo i gefnogi unigolion ag anghenion gofal cymdeithasol i fyw'n dda yn eu cymunedau trwy strategaethau arloesol a chynhwysfawr. Mae ein dull gweithredu yn cynnwys asesiadau cymesur gan weithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol i nodi'r cymorth lleiaf ond effeithiol, gwybodaeth a chynghor wedi'i phersonoli, a chynlluniau cymorth cyfannol a ddatblygwyd ar y cyd. Rydym hefyd yn archwilio atebion tai arloesol gyda chymorth gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol ar dai a hyrwyddo mannau byw y gellir eu haddasu. Mae cefnogaeth gymunedol fel gwasanaethau lleol a rhwydweithiau gwirfoddolwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth leihau ynysigrwydd a gwella bywyd bob dydd. At hynny, rydym yn integreiddio technoleg i hybu diogelwch ac annibyniaeth trwy ddyfeisiau cartref clyfar ac offer monitro iechyd. Ar gyfer byw yn y gymuned yn y tymor hir, rydym yn canolbwyntio ar systemau cymorth cynaliadwy gyda monitro ac ailasesiadau parhaus, ac rydym yn darparu adnoddau ar gyfer cefnogaeth i deuluoedd a'r rhai sy'n rhoi gofal. Trwy ddefnyddio'r ymdrechion cynhwysfawr hyn, ein nod yw creu amgylchedd cefnogol sy'n galluogi

unigolion ag anghenion gofal cymdeithasol i gynnal eu hannibyniaeth a mwynhau ansawdd bywyd uwch yn eu cartrefi eu hunain.

Sut mae pobl yn llunio ein gwasanaethau?

Mae hyn yn ymwneud â sut rydym yn darganfod beth mae pobl yn ei feddwl am ein gwasanaethau fel y gallwn adeiladu ar arfer da.

Fel Awdurdod Lleol, mae'n bwysig ein bod yn casglu ac yn clywed llais y rhai yr ydym yn eu cefnogi yn gyson. Rydym am sicrhau ein bod yn cynnig y cyfle gorau i wrando ac ymateb i farn pobl. Mae cymryd rhan yn rhan annatod o'n gwaith cynllunio a datblygu gwasanaethau. Felly, yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae gennym arweinydd strategol ar gyfer Ymgysylltu a Chyfranogi, a swyddog ymroddedig ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion i hyrwyddo gweithio cydweithredol. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, rydym yn gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn sicrhau ein bod yn cael 'sgyrsiau am beth sy'n bwysig' gyda'r rhai yr ydym yn eu cefnogi.

Ymgysylltu a Chyfranogi ar draws Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.

Mae'r Tîm Ymgysylltu a Chyfranogi yn gweithio ar draws y Gwasanaethau Plant i ymgorffori hawliau plant yn ein harfer beunyddiol. Mae'n darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed ddatblygu'r hyder a'r sgiliau i ddeall a defnyddio eu hawliau, cyd-gynhyrchu gwasanaethau a chael llais mewn materion sy'n effeithio arnynt, a'r nod yw hyrwyddo addysg deiliaid dyletswydd i ddeall eu rôl o ran galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at eu hawliau. Mae'r Tîm Ymgysylltu a Chyfranogi yn cefnogi ystod eang o blant a phobl ifanc sydd â chefnidiroedd, anghenion a phrofiadau gwahanol.

Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cefnogi ystod eang o weithgareddau, teithiau, prosiectau, ymgynghoriadau, grwpiau sefydledig a hyfforddiant i geisio llais y plentyn yn weithredol. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith a wnaed.

Hyrwyddwyr Hawliau Plant

Cyfrifoldeb pawb yw Hawliau Plant ac er mwyn ymgorffori hawliau plant ar waith mae'r Gwasanaethau Plant wedi ymrwymo i'r cysyniad o 'Hyrwyddwyr Hawliau Plant'. Yn 2021 cafodd 'Hyrwyddwyr' eu recriwtio ac ymrwymo i restr o gamau gweithredu a osodwyd ganddynt i ymgorffori hawliau plant ar waith yn eu rolau penodol. Mae rhoi gweithredoedd ar waith yn cael ei oruchwylio gan y Grŵp Ymarfer o Ansawdd a'r Grŵp Gwella Ymarfer, ac rydym yn cwrdd â 'Hyrwyddwyr' bob chwe mis i adolygu cynnydd a chefnogi cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Er

mwyn cefnogi gwaith y Swyddog Ymgysylltu a Chyfranogi ymhellach, mae grŵp Hyrwyddwyr Cyfranogi yn cyfarfod bob chwarter ac yn cynnwys staff o bob rhan o'r Gwasanaeth. Mae'n gyfle i rannu arfer da, hyrwyddo digwyddiadau a thrafod themâu cyffredin. Mae'r Tîm Ymgysylltu a Chyfranogi yn cyflwyno sesiwn 'Cyflwyniad i Hawliau Plant' wrth ymsefydlu staff newydd. Mae'r sesiwn hefyd yn gyfle i rannu gwaith y Tîm a hyrwyddo cyfleoedd sydd ar y gweill.

Digwyddiad Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc yn Plantasia



Mewn cydweithrediad â'r Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal, cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori yn Plantasia i roi cyfle i blant a phobl ifanc ailenwi'r Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal. Fel rhan o'r gwaith 'Iaith Rydyn Ni'n Ei Defnyddio' parhaus, amlygodd y plant a'r bobl ifanc yr angen am newid. Mae angen enw mwy cyfeillgar i adlewyrchu ethos y Tîm. Er mwyn hwyluso'r digwyddiad, cyflwynodd yr artist gair llafar Duke Al Durham sesiwn greadigol i ysgogi meddwl a thrafodaeth a helpu i ddod o hyd i enw priodol. Mae'r camau nesaf yn cynnwys casglu'r syniadau, rhannu'r canlyniad, a chydychymeradwyaeth, ailenwi'r Tîm. Roedd y lleoliad gwyb yn addas iawn ar gyfer rhai cyfleoedd hyrwyddo ar gyfer y broses Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion newydd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc wedi datblygu taflen, cerdyn post llawn gwybodaeth a maged i sicrhau bod ein holl blant yn gwybod sut i gysylltu â ni. Dros y misoedd nesaf bydd y deunydd yn cael ei anfon at Ofalwyr Maethu, Staff, Plant a Phobl Ifanc.

Strategaeth Niwrowahaniaeth

Rydym wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys Addysg ac Iechyd, i ddrafftio Cynllun Strategol CNPT ar gyfer Niwrowahaniaeth (Awtistiaeth a Chyflyrau Eraill) 2024-27. Ein nod yw creu diwylliant cynhwysol a deallgar, sy'n cefnogi plant, pobl ifanc, oedolion, teuluoedd a gofalwyr niwroamrywiol yn eu cymunedau, ac ar draws y Sir.

Safon Ansawdd 1 - Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni.

Mae hyn yn ymwneud â sut rydym yn gweithio mewn partneriaeth i helpu pobl i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

Mae CNPT yn aelod o Bartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg, ochr yn ochr â Chyngor Dinas a Sir Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, yn ogystal â chynrychiolwyr o bartneriaid o bob rhan o'r trydydd sector a'r sector annibynnol, aelodau'r gymuned, a gofalwyr di-dâl.

Mae gweithio rhanbarthol ar gyfer Cymru yn rhan bwysig o ddiwygiad ehangach o'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu rheoli. Mae'r Bartneriaeth wedi datblygu Strategaeth Anabledd Dysgu pum mlynedd, sy'n cynrychioli ymateb rhanbarthol i anghenion oedolion ag anableddau dysgu ac yn disgrifio'r ymrwymiad i genhadaeth strategol hirdymor ar gyfer diwallu eu hanghenion yng nghyd-destun deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol, cynlluniau rhanbarthol, a'r adnoddau sydd ar gael.

Mae gwaith eisoes wedi dechrau i sicrhau bod pobl sy'n byw yn CNPT, ac ar draws y rhanbarth ehangach, yn cael mynediad at y gofal a'r cymorth cywir, llety, trafnidiaeth a chyfleoedd cyflogaeth i'w galluogi i fyw'r bywydau y maent am eu gwneud.

Cyd-gynhyrchiad a Chyfranogiad Pobl â Phrofiad Bywyd

Mae'r Cyngor yn derbyn grant gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau (trwy'r Swyddfa Gartref) sy'n talu am Swyddog Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth fel bod y Bwrdd Cynllunio Ardal yn cynyddu cyfranogiad gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau defnyddio sylweddau ar draws CNPT ac Abertawe a CNPT. Dechreuodd ein swyddog weithio ym mis Medi 2023.

Yn ystod y flwyddyn, cydlynodd y Swyddog Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth y Prosiect Ymyriadau Cyfoedion sy'n cyflwyno'r tri ymyriad lleihau niwed arbenigol ar draws y rhanbarth i ddarparu cymorth, cyngor, ac arweiniad a dosbarthu citiau naloxone a chitiau nodwyddau a chwistrellau naloxone, a chynnal profion smotyn gwaed sych ar gyfer Feirysau a Gludir yn y Gwaed.

Fe wnaethant hefyd sefydlu dau Fforwm Cyd-gynhyrchu a gynhelir yn fisol yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae'r grwpiau wedi datblygu trefniadau llywodraethu priodol fel y gall pobl â phrofiad bywyd a phrofiad byw ymgysylltu â'r Bwrdd Cynllunio Ardal yn unol â chanllawiau cydgynhyrchu. Mae'r fforymau'n edrych ar



Cyfarfod y Fforwm Cydgynhyrchu, Ionawr 2024

gynlluniau gwaith wrth symud ymlaen a bydd y rhain yn helpu i lunio'r gwaith parhaus. Mae'r fforymau'n gweithio i'r mantra o "ddim byd amdanom ni, hebom ni".

Gan weithio ar draws pob sefydliad mae deiliad y swydd yn edrych ar yr hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth, ac yna gweithio gyda sefydliadau partner i ddatblygu dull cydgysylltiedig, cydlynol sy'n sicrhau bod gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth lais wrth i wasanaethau gael eu datblygu a'u cyflwyno yn y dyfodol.

Mae'r Swyddog Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth yn cefnogi ar ystod eang o ffrydiau gwaith eraill, gan gryfhau safbwyntiau a barn y rhai sydd â phrofiad bywyd a phrofiad byw.

Lleihau ynysigrwydd cymdeithasol

Nododd Cydlynnydd Ardaloedd Lleol sy'n gweithio yn y Cymoedd Uchaf nifer o unigolion oedrannus a oedd yn ynysig ac yn unig ac yn chwilio'n daer am ffyrdd o wella ansawdd eu bywyd. Roedd y Tîm Cysylltiad Cymunedol yn awyddus i gymryd rhan a chafodd Clwb Cinio Dydd Iau ei eni!

Cynhaliwyd y Clwb Cinio cyntaf ym mis Awst y llynedd, gyda thua 15 o bobl yn bresennol. Mae hyn bellach yn amrywio o 15 i'r uchafswm o 22 yn bresennol. Bob wythnos, mae pawb yn casglu am de, coffi a bisgedi wrth wneud cwis yn y bore, i'w ddilyn gan ginio ysgafn sy'n cael ei archebu o un o'r caffis lleol. Rydym yn archebu o gaffi gwahanol bob wythnos fel ein bod yn amrywio'r dewisiadau bwydlen ond mae hyn hefyd yn helpu i gefnogi'r busnesau lleol. Yn y prynhawn rydym naill ai'n cael gêm o bingo, neu'n cynnal gweithgaredd. Hyd yn hyn, rydym

wedi cael sesiynau crochenwaith, gwehyddu helyg, gwneud torchau, ymweliadau gan Gyngor ar Bopeth a'r Tîm Trechu Tlodi, Tai Chi, yr RNIB, Galluogi digidol, sesiynau crefft Multiply ac ymweliadau rheolaidd gan Dan o Heneiddio'n Dda, sy'n profi'n boblogaidd iawn. Yn fuan iawn mae gennym hyfforddiant diffibriliwr wedi'i gynllunio yn ogystal ag ymweliad gan y Gwasanaeth Tân, Achub Milgwn a Sesiwn Paentio.

Mae ymweliadau wythnosol gan y Tîm Cynhwysiant Digidol wedi cael eu trefnu, fel y gall pobl gael mynediad at gymorth ynghylch unrhyw faterion TG, ffonau symudol a materion cysylltiedig eraill. Mae'r grŵp wedi dod i adnabod Neil o'r tîm yn dda iawn ac mae wedi cael ymateb da, gyda nifer o bobl yn dod â phroblemau sy'n gysylltiedig â thechnoleg iddo i'w datrys bob sesiwn.

Fe wnaethon ni fwynhau cinio Nadolig gwych ym mis Rhagfyr, a gafodd ei gyflenwi a'i weini gan un o'r caffis lleol, gyda phlant o'r ysgol leol yn dod draw i'n diddanu gyda charolau Nadolig.

Mae'r grŵp yn cael llawer o hwyl ac mae wedi helpu pobl i adfer cyfeillgarwch oedd wedi dod i ben ynghyd â chreu cyfeillgarwch newydd rhwng pobl. I lawer o unigolion, y grŵp yw eu hunig digwyddiad cymdeithasol yn ystod yr wythnos ac o'r herwydd, mae bod yn bresennol yn meddwl llawer iddynt. Mae gan un o'r dynion sy'n cymryd rhan ddirywiad macwlaidd, mae'n byw ar ei ben ei hun ac nid oes ganddo deulu. Cyn dod i'r grŵp, roedd yn hollol ynysig yn ei fflat, ac yn teimlo fod y diwrnod yn hir. Mae bellach wedi aduno â hen ffrind nad oedd wedi'i weld ers blynnyddoedd, ac uchafbwynt ei wythnos yw cwrdd ag ef am sgwrs ar ddydd Iau. Ar ôl gweld pa mor gyfoethog y gall ei fywyd fod gyda phobl o'i gwmpas a gweithgareddau i gymryd rhan ynddynt, mae'n edrych ymlaen at ymweld â chartref preswyl yr wythnos hon, gyda'r gobaith o sicrhau cael ei leoli yno. Rydym eisoes wedi llwyddo i sicrhau Trafnidiaeth Gymunedol os bydd yn symud, a fydd yn ei alluogi i barhau i fynychu'r clwb ar ddydd Iau.

Mae'r clwb wedi helpu'r rhai sy'n mynychu i gael gwybod am ddigwyddiadau a gwasanaethau na fyddent erioed wedi bod yn ymwybodol ohonynt, ac maent yn dweud ei fod wedi helpu i wella ansawdd eu bywyd ac ehangu eu cylch cymdeithasol. Yn gymaint felly, nes bod rhai yn cwrdd ddwywaith yr wythnos i fynd i grwpiau eraill, mynd i siopa, neu gwrdd yn un o'r caffis lleol am sgwrs. Mae rhai ohonynt hyd yn oed wedi trefnu i fynd ar deithiau dydd a gwyliau gyda'i gilydd.

Gofalwyr di-dâl

Adolygiad Mewnol: Rydym wedi parhau â'n hadolygiad mewnol cynhwysfawr o gymorth i ofalwyr di-dâl, gan ymgysylltu ag amryw o dimau'r cyngor a chasglu sylwadau gan 224 o ofalwyr ledled Castell-nedd Port Talbot.

Prosiect Peilot: Yn seiliedig ar ein dysgu, fe gychwynnon ni brosiect peilot o fewn Tîm Rhwydwaith Castell-nedd. Crëwyd rôl bwrpasol newydd i bontio'r Timau Atal ac Ymyrraeth Gynnar a Gwaith Cymdeithasol, gan wella'r cyswllt gweithredol rhwng cymorth i ofalwyr a gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir i'r rhai y maent yn gofalu amdanynt. Roedd yr adborth gan ofalwyr a staff ar y prosiect peilot yn hynod gadarnhaol, gan arwain at fabwysiadu'r rôl fel nodwedd barhaol ar draws ein dau Rwydwaith arall.

Ffurflen a Gweithdrefnau Asesu Gofalwyr: Fel rhan o'r prosiect peilot, fe wnaethom ailwampio ein ffurflen a'n gweithdrefnau asesu gofalwyr, gan leihau amseroedd aros ar gyfer asesiadau yn sylweddol.

- **Llwyddiannau'r Prosiect Peilot:**
 - Codi proffil gofalwyr o fewn timau.
 - Hyrwyddo nodi gofalwyr yn gynnar.
 - Rhestrau Aros wedi'u Lleihau
 - Sicrhau ystyriaeth gyfannol o gymorth statudol ac anstatudol i ofalwyr a'r rhai y maent yn gofalu amdanynt.

Asesiadau Gofalwyr

Yn ein hymrwymiad parhaus i wella'r cymorth a ddarperir i ofalwyr di-dâl, rydym wedi ailwampio ein proses asesu yn sylweddol i ganolbwyntio ar sgysiau "beth sy'n bwysig" gyda gofalwyr oedolion di-dâl. Nod y dull hwn yw deall anghenion unigryw pob gofalwr yn well, gan ein galluogi i nodi a darparu'r cymorth angenrheidiol yn gynharach, gan sicrhau y gallant barhau yn eu rolau gofalu hanfodol.

Er mwyn cryfhau ein rhwydwaith cymorth ymhellach, rydym wedi penodi Swyddogion Datblygu Gofalwyr ym mhob un o'r rhwydweithiau clwstwr. Mae'r swyddogion hyn yn gweithredu fel hyrwyddwyr gofalwyr di-dâl, gan gynnal asesiadau anghenion gofalwyr di-dâl cynhwysfawr a meithrin cysylltiadau cryfach â darpariaethau seibiant byr a gwasanaethau cymorth cynnar ehangach.

Rydym hefyd yn y broses o ffurfioli rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar gyfer ein staff. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei gyflwyno cyn bo hir a bydd yn pwysleisio nodi a chefnogi gofalmwr di-dâl, gan roi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar ein staff i gynorthwyo gofalmwr yn effeithiol yn eu rolau.

Yn ogystal, rydym yn gwella ein partneriaeth â Chlystyrau Gofal Sylfaenol, yn enwedig yn y Cymoedd Uchaf, a fferyllfeydd lleol. Nod y cydweithrediad hwn yw nodi cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant, nodi gofalmwr di-dâl yn well, a sefydlu llwybrau cymorth clir. Trwy weithio'n agos gyda'r partneriaid hyn, ein nod yw creu amgylchedd mwy integredig a chefnogol ar gyfer gofalmwr di-dâl.

Mae'r mentrau hyn yn adlewyrchu ein hymroddiad i ddarparu cymorth amserol ac effeithiol i ofalmwr di-dâl, gan sicrhau eu bod yn derbyn y gydnabyddiaeth a'r cymorth y maent yn eu haeddu.

Beth sy'n Bwysig Ymgynghoriad ar Dai Ieuenctid – Cam 2

Drwy gydol 2023 bu'r Tîm Ymgysylltu a Chyfranogi yn cynorthwyo cydweithwyr yn y Tîm Contractau a Chomisiynu ar ymgynghoriad ar Ddigartrefedd a Thai Ieuenctid. Roedd hyn yn cynnwys cynnal cyfweiliadau â Phobl Ifanc a oedd yn ddigartref ac yn byw yn un o'r Darparwyr Tai a gomisiynwyd o fewn yr Awdurdod Lleol, ac a ystyriwyd yn Gam 1 o'r broses ymgynghori. Cynhaliodd y Swyddog Ymgysylltu a Chyfranogi un gweithdy gyda rhanddeiliaid a dau weithdy gyda deg o bobl ifanc ar draws darpariaethau Dewis a Clarewood i archwilio'r themâu a nodwyd yng Ngham Un ymhellach. Cyflwynwyd canfyddiadau'r tri gweithdy mewn dau adroddiad gan lywio cam nesaf yr ymgynghoriad a fydd yn cynnwys gweithdai pellach i hwyluso'r Bobl Ifanc i ddylunio pecyn gwybodaeth a thudalen we, y bwriedir eu darparu yn y cam cychwynnol o ddigartrefedd.

Arolwg o'r canlyniadau

Cynhaliodd y Tîm Ymgysylltu a Chyfranogi Arolwg o'r Canlyniadau i'w gwblhau ar ddau achlysur ym mis Ionawr a mis Mehefin 2023. Roedd yr arolwg yn arolwg ffôn a gynhaliwyd gyda Phlant ac Oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth gan wasanaethau Plant neu Oedolion. Roedd yr arolwg yn gyfle dewisol i unigolion roi adborth ar eu profiad gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, gan ganolbwyntio'n benodol ar eu canlyniadau unigol a sgysiau Beth sy'n Bwysig. Archwiliodd cwestiynau'r arolwg a oeddent yn teimlo bod y canlyniadau hyn yn cael eu bodloni ai peidio ac a oedd eu cryfderau'n cael eu cydnabod ai peidio.

Cynhaliodd y Tîm Ymgysylltu a Chyfranogi yr Arolwg Adolygu Cyflym Amddiffyn Plant gyda Rhieni/Gwarcheidwaid plant ar y gofrestr amddiffyn plant. Nod yr Arolwg Cenedlaethol oedd casglu persbectif amlddisgyblaethol ar drefniadau amddiffyn plant. Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystyried ymatebion ochr yn ochr â gweithgareddau adolygu eraill i gefnogi cwblhau adroddiad cenedlaethol.

Cyfweliadau Newid Mwyaf Arwyddocaol

O fis Mai 2023 cynhaliodd y Tîm Ymgysylltu a Chyfranogi gyfweliadau Newid Mwyaf Arwyddocaol a oedd yn canolbwyntio ar nifer o ymyriadau a phrosesau penodol. Roedd y cyfweliadau yn adlewyrchu'r templed a'r hyfforddiant Newid Mwyaf Arwyddocaol a fynychodd y Tîm gyda Nick Andrews o Brifysgol Abertawe. Parhaodd y broses gyfweld drwy gydol y flwyddyn gan ganolbwyntio ar bynciau amrywiol a daeth i ben gyda'r Panel Newid Mwyaf Arwyddocaol, a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2023. Roedd y Panel yn cynnwys Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai, Penaethiaid Gwasanaethau Plant ac Oedolion, cynrychiolwyr o'r Rhwydwaith Eiriolaeth Rhieni (PAN), Gweithwyr Cymdeithasol Ymgynghorol a'r Swyddog Ymgysylltu a Chyfranogi. Roedd y panel yn gyfle i archwilio'r straeon a chymryd rhan mewn deialog i nodi pa Stori yr oedd unigolion yn credu oedd fwyaf arwyddocaol a pham, gan rannu arfer da a straeon o lwyddiant.

Arolygon Cartrefi Gofal – Yn Parhau

Drwy gydol 2023 ac yn parhau ar hyn o bryd, rhoddodd y Tîm Ymgysylltu a Chyfranogi gymorth i'r Swyddogion Contract a Chomisiynu Gwasanaethau Oedolion yn eu prosesau monitro Cartrefi Gofal a gomisiynwyd. Mae'r Swyddogion Ymgysylltu a Chyfranogi yn adeiladu, monitro a llunio arolygon ac yn cynnig cymorth wyneb yn wyneb wrth fynd i'r Cartrefi Gofal i gynorthwyo preswylwyr, perthnasau a staff i gwblhau'r arolygon yn bersonol.

Safon Ansawdd 2 – Rydym yn gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl. *Mae hyn yn ymwneud â sut rydym yn helpu pobl i ofalu am eu hiechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol.*

Rydym yn parhau i ddefnyddio technoleg i gefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau personol.

Cwblhawyd gwaith ailfodelu ac adnewyddu i ddarparu Ystafell Atebion Digidol. Agorwyd y cyfleuster hwn yn ffurfiol ym mis Awst 2023 i arddangos a dangos sut y gall technoleg ddigidol brif ffrwd gefnogi byw'n annibynnol, a/neu wella gofal/teleofal arall. Gall holl drigolion, gofalwyr a staff CNPT archebu teithiau tywys o'r Ystafell Atebion Digidol, ac ers iddi agor mae mwy na 150 o ymwelwyr wedi ymweld â ni.

Mae cais llwyddiannus am gyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi galluogi prosiect trawsadrannol i ddarparu gwasanaethau cofleidiol sy'n cefnogi Cynhwysiant Digidol a Galluogi Digidol. Rheolir y prosiect gan y Tîm Atal ac Ymyrraeth Gynnar mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth Dysgu Oedolion a'r Gwasanaeth Ieuencid.

Mae'r Tîm Atal ac Ymyrraeth Gynnar wedi parhau i weithio i ddatblygu platfform digidol i gefnogi cysylltiadau cymunedol, lleihau unigrwydd ac ynysigrwydd, a darparu mynediad hawdd at adnoddau defnyddiol i gefnogi hunanreolaeth a lles, ar-lein ac yn eu cymunedau. Mae profi beta yn cael ei gynnal a rhagwelir y bydd yn cael ei lansio yn ystod haf 2024.

Rydym ar y trywydd iawn o ran ein rhaglen arfaethedig ar gyfer uwchraddio pob uned Llinell Fywyd i fod yn barod cyn i linellau ffôn analog ddod i ben a'r newid i ddigidol erbyn Rhagfyr 2025 – gan gynnal gwasanaeth i 2,500 o breswylwyr.

Gan weithio'n agos gyda'r Tîm Rheoli Meddyginiaethau Cymunedol rydym yn parhau i gefnogi unigolion i gymryd eu meddyginiaethau yn ddiogel gan ddefnyddio dyfeisiau atgoffa a/neu ddosbarthu awtomatig.

Rydym yn parhau i weithio gyda thrigolion byw â chymorth i nodi sut y gall technolegau gefnogi eu hannibyniaeth, eu hansawdd bywyd a'u canlyniadau personol.

Mae cydweithio yn parhau gyda'n gwasanaeth dydd BSpoked, a'r unigolion y maent yn eu cefnogi i nodi cyfleoedd fel bod technoleg yn helpu er mwyn cyflawni canlyniadau personol a sgiliau byw'n annibynnol. Rydym wedi darparu

hyfforddiant ac wedi gosod technoleg ddigidol a Thechnoleg Gynorthwyol brif ffrwd yn yr Ystafell Byw'n Annibynnol sydd wedi cael derbyniad da, a byddwn yn parhau i ddatblygu a chynnwys hyn mewn cynlluniau gwaith ar gyfer 2024-2025.

Mae cynllun peilot cychwynnol gwasanaeth ymateb yn ardal Clwstwr Afan wedi'i gwblhau ac wedi dangos effaith gadarnhaol ar les o ran cwmpadau nad ydynt yn niweidiol ac argyfyngau anfeddygol eraill. Mae cyllid wedi'i ddyrannu i gynnal cynllun peilot blwyddyn pellach rhwng 2024-2025, er mwyn cyflwyno Gwasanaeth Ymateb Symudol ar gyfer holl ddefnyddwyr Llinell Fywyd CNPT, a fydd yn llywio modelau ar gyfer darparu gwasanaethau parhaus.

Seibiannau byr

Mae yna adegau pan fydd rôl rhianta plentyn yn therapiwtig yn flinedig ac mae hyn yn cael effaith ar effeithiolrwydd y gofawyr maeth i rianta'n effeithiol. Er mwyn cefnogi perthnasoedd a sefydlogrwydd lleoliad, rydym wedi cefnogi gofawyr maeth trwy baru'r plant ag aelwyd arall a darparu seibiannau byr.

Tîm Ysbyty

Y llynedd, enillodd y Tîm wobwr ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol am ei waith amlasiantaeth o fewn Gartref yn Gyntaf. Mae swyddogaethau'r tîm hwn yn cynnwys atal derbyn cleifion i'r ysbyty yn ddiangen trwy weithio ar draws y gymuned a'r ysbyty; hwyluso rhyddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol; gweithredu canllawiau cenedlaethol ar ofynion rhyddhau cleifion; a sicrhau bod cleifion yn cael eu cefnogi yn y gymuned ar ôl cael eu rhyddhau er mwyn lleihau cael eu hail-dderbyn i'r ysbyty. Mae'r tîm wedi ehangu dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda chanolfan yn Ysbyty Treforys yn ogystal â Chastell-nedd Port Talbot.

Mae'r Tîm yn gweithio tuag at wella'r amser a gymerir i ymateb i atgyfeiriadau a chefnogi ymateb Rhyddhau i Adfer yna Asesu, gyda chynlluniau i ganolbwyntio ymhellach ar ymyrraeth gynnar i nodi anghenion cymorth yn gynharach yn ystod taith unigolyn trwy'r ysbyty.

Tîm Lles/ Ailalluogi Cymunedol

Cynhaliwyd archwiliad o'r Tîm Lles Cymunedol ym mis Tachwedd 2023 a nododd berthynas waith gadarnhaol rhwng Gofal Cymdeithasol ac Iechyd; cefnogaeth rheoli gryf; staff gofalgwr a chefnogol; mae cynlluniau personol yn diwallu

anghenion pobl; mae pobl yn ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod; ac mae systemau cadarn ar waith i archwilio ansawdd y gofal a'r cymorth yn rheolaidd.

Technoleg Gynorthwyol

Gan weithio gyda chryfderau pobl, gellir defnyddio Technoleg Gynorthwyol i hyrwyddo iechyd, lles a hunanreolaeth, ac mae ganddi botensial i alluogi cymunedau mwy gwydn, gan leihau'r galw/dibyniaeth ar wasanaethau cymorth mwy traddodiadol. Mae gosodiadau, cynnal a chadw a datgomisiynu offer bellach yn cael eu cyflawni'n fewnol o fis Chwefror 2024. Mae hyn wedi galluogi effeithlonrwydd yn y gwasanaeth a fydd yn sicrhau capasiti digonol ar gyfer uwchraddio digidol a lleihau amseroedd aros ar gyfer y gwasanaeth.

Mae mynd i'r afael â'r newid o linellau ffôn analog i ddigidol erbyn mis Rhagfyr 2025 yn flaenoriaeth allweddol i'r gwasanaeth, gan sicrhau bod yr holl offer llinell bywyd a theleofal yn cael eu newid cyn yr amser hwn i sicrhau trosglwyddiad llyfn a diogel wrth i unigolion gael eu symud o linellau ffôn analog i rwydweithiau llais digidol. Rydym bellach wedi dechrau cam 2 y map trywydd ac rydym ar y trywydd iawn fel y cynlluniwyd i gyflawni'r 'newid digidol' hwn ar gyfer 2,500 o ddefnyddwyr y gwasanaeth, ac mae 56% o gleientiaid wedi'u huwchraddio hyd yn hyn.

Rydym yn parhau i gysylltu â chwmnïau cyfathrebu i sicrhau bod cleientiaid llinell fywyd a theleofal yn cael eu symud yn ddiogel wrth i ni symud i gam 2 ein map ffordd newid digidol. Bydd ein rhaglen uwchraddio yn cyflymu dros y flwyddyn nesaf ac rydym ar y trywydd iawn i uwchraddio'r holl offer cyn y dyddiad cau gwreiddiol ym mis Rhagfyr 2025.

Mae cynllun peilot y Gwasanaeth Ymateb Symudol yn rhoi cefnogaeth amserol i unigolion yn byw gartref sy'n profi cwympiadau nad ydynt yn niweidiol ac argyfyngau anfeddygol eraill. Ymatebir i'r rhan fwyaf o'r galwadau o fewn yr awr, sy'n golygu bod pobl sy'n cwmpo yn osgoi gorwedd am gyfnod hir a'r canlyniadau negyddol cysylltiedig, ac yn llai tebygol o gael eu derbyn i'r ysbyty. Mae'r gwasanaeth hefyd yn lleihau gorflinder gofalwyr ac yn rhoi hyder i unigolion barhau i aros yn eu cartref eu hunain.

Mae prosiect Cynhwysiant Digidol a Galluogi Digidol CNPT a ariennir gan Y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ceisio gwella bywydau unigolion trwy eu helpu i gadw mewn cysylltiad, rheoli gweithgareddau dyddiol a bod yn fwy annibynnol ac yn ymgysylltu. Mae'r prosiect yn datblygu ac yn cynyddu'r gwaith presennol i leihau anghydraddoldeb i grwpiau difreintiedig, gan gynyddu mynediad at

dechnolegau digidol sy'n gwella bywyd beunyddiol/heneiddio'n dda, a chefnogi dinasyddion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol i gael mynediad at wasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae dull amlochrog yn cynnwys:

- Rhwydwaith o staff a gwirfoddolwyr Cynhwysiant/Galluogi Digidol sy'n darparu cymorth wedi'i dargedu i unigolion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu neu fynediad ychwanegol.
- Galluogi mynediad fforddiadwy/am ddim trwy'r Llyfrgell Benthycu Offer a Chynllun Banc Data.
- Cyflwyno cwrs rhyngweithiol i gefnogi sgiliau digidol a sgiliau bywyd gyda chymhwyster i wella rhagolygon yn y dyfodol ar gyfer myfyrwyr ysgol blwyddyn 11 wedi'u targedu.

Astudiaeth Achos

"Dwi bron yn 85 oed, a dwi newydd gael fy ffôn symudol cyntaf, lle dwi'n edrych ymlaen at y cam nesaf o gael fy dangos sut i'w ddefnyddio.

Erbyn hyn, rwy'n defnyddio fy iPad bob dydd. Byddwn i'n dweud bod yr iPad yn anadl einioes i mi. Mae wedi gwneud y byd yn agored i mi. Rwy'n teimlo'n llai unig, gan ei fod wedi ehangu fy mywyd cymdeithasol, oherwydd bellach rwy'n gallu gweld pobl ar y sgrin, nid dim ond yn clywed eu lleisiau ar y ffôn, sydd wedi gwneud gwahaniaeth enfawr. Rwy'n teimlo fy mod i wedi adennill fy annibyniaeth gan fy mod i nawr yn gallu siopa ar-lein, a mynd ar-lein i chwilio am unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arnaf, a gwirio fy bancio ar-lein."

Defnydd Sylweddau

Mae Tîm Cefnogi'r Bwrdd Cynllunio Ardal yn gweithio ar sail ranbarthol ar draws Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, wedi'i lywodraethu gan y Bwrdd Cynllunio Ardal ac a gynhelir gan CBSCNPT, yn gweithredu fel bancwr y Gronfa Weithredu

ar Gamddefnyddio Sylweddau. Mae CBSCNPT yn aelod o'r Bwrdd Cynllunio Ardal gyda phleidlais, fel un o'r awdurdodau cyfrifol.

Ni yw'r unig ranbarth yng Nghymru sy'n adolygu gorddosau cyffuriau nad ydynt yn angheuol yn rheolaidd. Mae ein proses yn cynnwys asesu pob achos a'i neilltuo i'r gwasanaeth priodol i gysylltu o fewn 72 awr i'r gorddos gael ei gofnodi. Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn rhoi arweiniad, cefnogaeth, naloxone, ac atgyfeiriadau i wasanaethau arbenigol. Mae cynnydd pob person yn cael ei fonitro'n ofalus nes bod risgiau a nodwyd yn cael eu lliniaru.

Mae'r Tîm yn chwarae rhan ganolog wrth gydlyn a hwyluso'r Panel Adolygu Annibynnol ar gyfer marwolaethau a amheuir yn gysylltiedig â chyffuriau. Y prif amcan yw nodi argymhellion, pwyntiau dysgu, ac arfer gorau o'r achosion hyn. Yn dilyn hynny, rydym yn rhannu'r canfyddiadau gyda'r gwasanaethau perthnasol, gan eu galluogi i addasu eu harferion a gwella'r gwasanaethau a ddarperir.

Datblygu a Thrawsnewid Gwasanaethau

Mae'r Bwrdd Cynllunio Ardal yn cychwyn ar raglen drawsnewid i greu dull integredig lechyd y Cyhoedd o atal a thrin defnydd sylweddau. Yn ystod 2023/24 dechreuodd Rheolwr Rhaglen, a chytunodd partneriaid ar Achos Busnes i weithredu 'dull system gyfan' newydd yn lle'r ystod bresennol o wasanaethau defnyddio sylweddau trwy gomisiynu gwasanaeth defnyddio sylweddau integredig, hynod weladwy, hygyrch ac effeithiol sy'n darparu triniaeth a chymorth integredig i ddiwallu anghenion poblogaeth amrywiol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Rydym wedi cynnwys pobl â phrofiad bywyd/byw, staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau, darparwyr presennol a chomisiynwyr i fynychu gweithdai, lle mae partneriaid wedi cael cyfle i gyd-gynllunio'r gwasanaeth newydd ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Bydd yr ymarfer Comisiynu yn dechrau yn ystod haf 2024.



Rhanddeiliaid mewn Gweithdy
Datblygu'r Gynghrair, Mawrth 2024

Sefydlwyd Comisiwn Cyffuriau Bae'r Gorllewin i ymchwilio pam fod y rhanbarth wedi bod yn dioddef lefelau uchel o farwolaethau yn gysylltiedig â chyffuriau, a niwed yn gysylltiedig â defnyddio sylweddau. Mae wedi gweithio drwy gydol y

flwyddyn i gasglu tystiolaeth. Cynhaliodd y panel annibynnol hwn nifer o gyfarfodydd ar gyfer y cyhoedd a chlywed gan ystod eang o westeion gwadd ar themâu allweddol a nodwyd. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi ei adroddiad yn ystod haf 2024. Bydd yr argymhellion yn cael eu defnyddio i wella systemau a byddant yn llywio datblygiad y dull system gyfan newydd.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu

Mae ein gwasanaethau yn parhau i weld galw cynyddol, sy'n profi'n heriol o ran diffyg darpariaeth gwasanaethau addas a'r costau uchel sy'n gysylltiedig â gwneud lleoliadau.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Mae'r heriau sy'n wynebu Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn cynnwys:

- Absenoldeb amrywiaeth o fodelau o lety a gofal. Mae hyn yn arwain at orddibyniaeth ar leoliadau cost uchel i reoli risg i'r unigolyn ac eraill, a diogelwch y cyhoedd yn ehangach.
- Diffyg darparwyr sy'n hyderus i reoli unigolion sydd â risg fforensig, felly dim dewis arall ond defnyddio lleoliadau cost uchel
- Rheoli risg - Disgwyliad gan asiantaethau partner i ddiogelu unigolion a'r rhai sy'n peri risg i eraill, fel un asiantaeth
- Bylchau mewn gwasanaeth – Iechyd Meddwl ac ymyriadau Therapiwtig.
- Prinder darparwyr gofal cartref sy'n arbenigo mewn cefnogi unigolion ag anghenion iechyd meddwl.
- Mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod digon o Weithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy ar gael i gyflawni eu rolau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae heriau o ran gallu darparu gwasanaeth 24 awr sy'n gallu ymateb i anghenion cleifion mewn modd amserol. Mae nifer y Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy yn lleihau, ac mae yna anawsterau o ran recriwtio a chadw gweithlu Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy.

Gwasanaethau Anableddau Dysgu

- Mae'r gwasanaeth yn gynyddol yn cefnogi unigolion ag anghenion gofal iechyd mwy cymhleth. Mae pwysau cyllidebol ac adnoddau yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdod lleol a fyddai fel arfer wedi bod o dan ofal y GIG. O ganlyniad, rydym yn gweld costau lleoli cynyddol ar gyfer diwallu anghenion cymhleth.
- Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr unigolion sydd â diagnosis awtistiaeth, lle mae cynnig cymorth ymarferol yn aml yn dod o dan ofal yr awdurdod lleol yn unig. Nododd dadansoddiad diweddar o bobl ifanc yn trosglwyddo i'r Gwasanaethau Oedolion fod tua 50% ohonynt wedi cael diagnosis awtistiaeth. Mae yna hefyd ddiffyg gwasanaethau sy'n gallu diwallu anghenion amrywiol unigolion awtistig.
- Mae prinder gwasanaeth yn effeithio ar y gallu i gynnig dewis a rheolaeth i unigolion.
- Mae rheoli ymddygiadau yn dod yn fwy heriol i'w gyflawni, gyda diffyg gwasanaethau sy'n ystyriol o drawma a dulliau ymarfer. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r awdurdod lleol ddod yn arbenigwyr lle byddem wedi dibynnu o'r blaen ar berthynas agos ag asiantaethau partner i ddarparu'r arbenigedd hwnnw. Mae awdurdodau lleol bellach yn llenwi'r bwlch o ran darparu gwasanaethau.
- Mae diffyg adnoddau, set sgiliau a'r amgylchedd i ddiwallu anghenion unigolion a chanddynt ymddygiad sy'n herio.

Safon Ansawdd 3 - Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Mae hyn yn ymwneud â helpu i amddiffyn pobl a allai fod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso, eu niweidio neu eu hecsbloetio.

Mae ein dull o Ddiogelu ar draws Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn parhau i gael ei symleiddio a'i gryfhau gan y canlynol:

- ✓ Rydym yn parhau i ddatblygu ansawdd ein trafodaethau strategaeth drwy sicrhau bod yr holl bartneriaid allweddol yn cymryd rhan o'r dechrau
- ✓ Rydym wedi cyflwyno cyfarfodydd strategaeth ar gyfer canlyniadau ar ôl ymholiadau A47 i sicrhau bod pawb, gan gynnwys rhieni a phlant, sy'n cyfrannu at yr ymholiad, yn cael golwg ar yr adroddiad terfynol, sy'n caniatáu iddynt ddeall sut y gwneir penderfyniadau ac yn rhoi cyfle i'w herio.
- ✓ Rydym yn parhau i ymgysylltu â rhieni, teulu a gofalwyr fel partneriaid ym mhob fforwm diogelu.
- ✓ Mae ein cynnig o Gynadledda Grŵp Teulu yn parhau i gael derbyniad da, ac rydym wedi ymestyn y cynnig o Gynadledda Grŵp Teulu i'r teuluoedd hynny sy'n gwahanu ac nad ydynt yn agored i'r Awdurdod Lleol.
- ✓ Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae hyfforddiant Deddf Galluedd Meddyliol wedi'i gyflwyno ar draws gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion i sicrhau cysondeb wrth asesu a'r ymyrraeth ddilynol.
- ✓ Mae ein hymateb i niwed y tu allan i'r cartref teuluol wedi'i gryfhau gan Bartneriaeth Strategol SAFE, a goruchwylio'r ymateb i'r math hwn o risg a niwed.
- ✓ Rydym ar fin defnyddio ein Traciwr Diogelu Aml-asiantaeth i sicrhau bod systemau partneriaeth yn cael eu rhyngwynebu i nodi ac ymateb i risg a niwed.
- ✓ Mae mwy o bobl ifanc wedi trosglwyddo i wasanaethau oedolion oherwydd pryderon am risg a niwed, a byddwn yn parhau i ddatblygu ein hymateb i niwed y tu allan i'r cartref teuluol ar hyd y cwrs bywyd.
- ✓ Rydym wedi dod â'r adolygiad o'n hymateb i Drais a Cham-drin Domestig ar draws gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a byddwn nawr yn trosi'r

canfyddiadau yn Gynllun Gweithredu i gryfhau ein hymateb i Drais a Cham-drin Domestig gyda'n hasiantaethau partner ar draws gwasanaethau gofal cymdeithasol.

- ✓ Mae ein hymateb cyflym i hunanladdiad tybiedig wedi'i ymestyn i ymateb i ymdrechion hunanladdiad sylweddol, sy'n ein galluogi i sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei dargedu a bod dysgu'n cael ei ysgogi.
- ✓ Bydd y Gwasanaeth Eiriolaeth Rhieni a Chymheiriaid rhanbarthol, y cyntaf yng Nghymru, yn cael ei ddarparu gan Mental Health Matters ac mae disgwyl iddo ddechrau ym mis Gorffennaf 2024.
- ✓ Mae ein Rhwydwaith Eiriolaeth Rhieni yn parhau i fynd o nerth i nerth gan gefnogi rhieni a'u teuluoedd ar draws Castell-nedd Port Talbot.
- ✓ Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i wneud Castell-nedd Port Talbot y lle mwyaf diogel yng Nghymru ar gyfer dinasyddion ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r byrddau partneriaeth niferus: Diogelwch Cymunedol, Cynllunio Ardal, Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Caethwasiaeth Fodern a Masnachu mewn Pobl, Diogelu Rhanbarthol, Diogelu Plant Iau a'r Strategaeth Gwrthderfysgaeth (CONTEST) i gyflawni'r nod hwn.

Pwynt Cyswllt Unigol

Gwelodd elfen ddiogelu gwaith y tîm Pwynt Cyswllt Unigol 432 o atgyfeiriadau Oedolion mewn Perygl, gyda 36 achos yn cael eu huwchgyfeirio i lefel ymholiad a126. Cafodd y 396 o achosion oedd yn weddill naill ai cael eu tynnu yn ôl ar gyfer asesiadau cymesur neu eu datrys gan ymholiadau rheolaethol, sy'n nodi proses frysbennu gadarn sy'n sicrhau mai dim ond yr achosion mwyaf hanfodol sy'n cael ymchwiliad dwys.

Mae cyfansoddiad amlddisgyblaethol y tîm Pwynt Cyswllt Unigol, sy'n cynnwys gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, nyrs arbenigol, a gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol ar dai sydd newydd gael ei ychwanegu, wedi bod yn ganolog wrth fynd i'r afael ag ystod eang o anghenion. Mae'r cynllun i gynnwys heddwas yn y tîm yn debygol o gryfhau'r ymdrechion diogelu

ymhellach. Yn gyffredinol, mae'r tîm Pwynt Cyswllt Unigol wedi dangos dull cynhwysfawr ac effeithlon o reoli anghenion cymdeithasol, corfforol ac iechyd wrth ganolbwyntio'n gryf ar ddiogelu.

Tîm Diogelwch Cymunedol

Mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol yn helpu i sicrhau bod trigolion Castell-nedd Port Talbot yn teimlo'n ddiogel, ac yn ddiogel, trwy ddarparu mentrau a chymorth effeithiol i atal troseddau ar draws y fwrdeistref. Mae'r tîm yn darparu mentrau priodol, perthnasol drwy amrywiaeth o ffyrdd, gan wneud hynny mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Mae Diogelwch Cymunedol yn sicrhau bod yr effaith y mae unrhyw Drosedd ac Anhrefn yn eu cael ar ein cymunedau lleol yn cael eu lleihau; gyda goruchwyliaeth, datrys problemau a darparu cymorth ar faterion allweddol fel Cam-drin Domestig, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau Casineb, Llinellau Cyffuriau , Sgamiau, Tensiynau Cymunedol, Troseddau Busnes, Terfysgaeth.

Chwe maes blaenoriaeth y Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol y cytunwyd arnynt ar gyfer 2024-2027 yw:

- Trais Yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Cydlyniant Cymunedol
- Trais Difrifol
- Atal Troseddau Cyffredinol (gan gynnwys Ymgysylltu â'r Gymuned a Throseddau Meddiangar
- Defnydd Sylweddau

(Y flaenoriaeth o ran defnyddio sylweddau sy'n cael ei harwain gan y Bwrdd Cynllunio Ardal a'i Dîm, ar ran y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, yn hytrach na'r Tîm Diogelwch Cymunedol ei hun)

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae Grŵp Arweinyddiaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol CNPT yn cael ei

gydlynu gan y Tîm Diogelwch Cymunedol. Mae'r Grŵp yn parhau i gwrdd bob chwarter ac yn goruchwyllo gweithrediad ein strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol leol ar gyfer 2023-2026. Mae cynnydd rhagorol wedi'i wneud yn y 7 maes gwaith: Cyfathrebu ac Ymgysylltu / Plant a Phobl Ifanc / Ymyriadau Cyflawnwyr / Ymyrraeth Gynnar ac Atal / Hyfforddiant Staff / Gwasanaethau Hygyrch / Llysoedd a Chyfiawnder Troseddol.

Cefnogodd ein Gwasanaeth Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol o fewn yr adran Diogelwch Cymunedol **615** o ddioddefwyr risg uchel o gam-drin domestig yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cymharu â **650** yn y flwyddyn flaenorol. Gellir priodoli'r gostyngiad hwn mewn niferoedd i newid yn ein dull gweithredu pan dderbynnir atgyfeiriadau, un newid yw bod pob dioddefwr gwrywaidd bellach yn cael ei gefnogi gan Wasanaethau Trais Domestig Calan. Mae natur yr achosion a dderbynnir i'r gwasanaeth yn parhau i fod yn gymhleth iawn mewn sawl achos, sy'n gofyn am ddull gofalus a phwylllog gan y tîm.

Llwyddodd y Tîm Diogelwch Cymunedol i dderbyn cyllid i brynu eitemau tynhau diogelwch y targed i helpu dioddefwyr i deimlo'n fwy diogel a bod yn fwy diogel. Roedd y cyllid hwn yn caniatáu i ni brynu clychau drws â fideo, Camerâu ar Fordiau Blaen Cerbydau, ffonau symudol, cloeon ffenestri, jamwyr drysau a Larymau Diogelwch Personol. Roedd yn galonogol i staff roi eitemau ffisegol i'r unigolion maen nhw'n eu cefnogi, yn ogystal â'r gefnogaeth gyfannol a'r cynllunio diogelwch maen nhw'n ei gynnig. Roedd y teuluoedd yr ydym yn gweithio gyda nhw mor ddiolchgar i dderbyn yr eitemau.

Mae'r tîm yn gyfrifol am gydlynu'r fforwm MARAC (Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg) Cam-drin Domestig. Roedd **1,223** o atgyfeiriadau i MARAC yn ystod y flwyddyn Roedd **2,045** o blant yn gysylltiedig â'r atgyfeiriadau hyn. Roedd **426** o'r atgyfeiriadau yn achosion ailadroddol, ar ôl cael eu trafod yn MARAC o'r blaen.

Sefydlwyd Grŵp Llywio MARAC CNPT yn 2022/23 ac mae wedi parhau trwy gydol 23/24, gan weithredu'r system MANTA newydd eleni, sydd wedi newid y ffordd y caiff y cyfarfodydd eu cydlynu a sut maent yn gweithredu. Mae hwn yn ddatblygiad hir-ddisgwyliedig, ac mae Cydlynnydd Diogelwch Cymunedol MARAC wedi bod yn allweddol yn ei lwyddiannau cynnar, gyda chefnogaeth gan ein partneriaid.

Mae un o ffrydiau gwaith ein strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, '*Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach*' yn canolbwyntio ar Gyfathrebu ac Ymgysylltu, gan sicrhau ein bod yn codi ymwybyddiaeth o bob math o gam-drin domestig, gan annog pobl i geisio cymorth a chefnogaeth. Trefnodd yr is-grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu ymgyrch Rhuban Gwyn llwyddiannus yn ystod mis Tachwedd 2023 – gan gynnal ein digwyddiad ymgysylltu blynyddol yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot a chynnal '16 diwrnod o weithredu' llwyddiannus ar ein platfformau cyfryngau cymdeithasol CNPT Mwy Diogel.

Rydym yn parhau i ddarparu gwersi Perthynas Iach addas i'r oedran i bob ysgol a choleg, er mwyn sicrhau bod gan bobl ifanc ymwybyddiaeth o sut beth yw perthynas nad yw'n iach, a ble i geisio cymorth os oes ei angen arnynt – boed hynny drostynt eu hunain, ar gyfer ffrind neu aelod o'r teulu. Yn ystod 2023/24, derbyniodd **3,716** o bobl ifanc y wers hon.

Lleoedd y Gwasgerir Ceiswyr Lloches iddi

Yn dilyn Deddf Mewnfudo a Lloches 1999, polisi'r DU fu adleoli ceiswyr lloches i nifer o 'ardaloedd gwasgaru' mewn canolfannau trefol rhanbarthol. Gorchymyn y Swyddfa Gartref yw bod pob Cyngor yn derbyn ceiswyr lloches o dan y cynllun gwasgaru tai cenedlaethol. Mae'r Swyddfa Gartref yn comisiynu cwmni o'r enw Clearsprings i ddod o hyd i eiddo ac i ddarparu cefnogaeth gyfyngedig. Mae nifer o deuluoedd wedi cael eu gwasgaru i'r ardal hon.

Cynllun Ailsefydlu Dinasyddion Affganistan

Rydym yn parhau i gomisiynu'r Groes Goch Brydeinig i gefnogi pedwar teulu sydd wedi'u hymgartrefu o dan gynllun ailsefydlu dinasyddion Affganistan ar gyfer staff o Affganistan a gyflogir yn lleol. Cyrhaeddodd un teulu trwy lwybr dod o hyd i'ch llety eich hun, ac unigolyn arall drwy ailuno teulu. Yn y flwyddyn gyntaf, mae pobl yn derbyn cefnogaeth ymglyfarwyddo dwys, ond mae'r gefnogaeth yn lleihau ym mlynnyddoedd 2 a 3.

Ymateb i Wcráin

Mae CNPT yn parhau i ddarparu cefnogaeth ddyngarol helaeth i bobl sydd wedi ffoi o'r gwrthdaro yn Wcráin

Y llynedd, fe wnes i dynnu sylw at y ffaith fod y Cyngor wedi helpu Llywodraeth Cymru i sefydlu Canolfan Croeso a Llety Dros Dro i bobl sy'n ffoi o'r gwrthdaro, a chydabu'r gwaith anhygoel i ymgartrefu teuluoedd a'u hymgyfarwyddo.

Er bod y ganolfan groeso a'r gwesty wedi cau ers hynny, gwnaed gwaith helaeth parhaus i gefnogi'r bobl o Wcráin o fewn CNPT. Cefnogwyd llawer o'r teuluoedd hyn i symud o'u llety dros dro i gartrefi rhentu preifat, gan setlo ac ymgartrefu yn ein cymunedau. Mae tîm ymateb Wcráin wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth atal pobl rhag bod angen gwasanaethau statudol fel digartrefedd. Yn ogystal, symudodd rhai pobl allan o'r gwesty/canolfan groeso i fyw gyda noddwyr teuluol yn y fwrdeistref a bydd angen inni weithio gyda nhw i ddod o hyd i lety sefydlog pellach.



Mae'r gefnogaeth ymgysylltu a roddir gan y tîm yn ymdrin â sawl agwedd ar gefnogaeth, o gofrestru mewn ysgolion, chwilio am gyfleoedd cyflogaeth, rheoli tenantiaethau, gofal iechyd ac ymgysylltu â'r gymuned. Roedd hyn yn gofyn am waith partneriaeth a chydlynu mawr gyda phartneriaid mewnol ac allanol.

Mae pobl wedi parhau i gyrraedd CNPT trwy Cartrefi i Wcráin, trwy lwybr uwch-noddwr Llywodraeth Cymru ond hefyd y cynllun noddwr unigol (lle mae preswilydd yn cynnig ystafell ychwanegol) i deuluoedd o Wcráin geisio lloches. Mae'r tîm wedi cefnogi llawer o bobl trwy'r llwybr unigol i symud ymlaen o lety gan letywyr i lety mwy parhaol a byddant yn parhau i wneud hynny.

Hyd yma, rydym wedi sefydlogi 175 o bobl yn CNPT sy'n byw ac yn ymdopi'n annibynnol. O'r cychwyn cyntaf ar ôl cyrraedd, mae'r tîm yn cefnogi'r gwesteion i wreiddio o fewn eu cymunedau lleol a dechrau ailadeiladu eu bywydau; mae llawer o bobl yn cyrraedd gyda dim neu nemor ddim. Mae rhan o'r gwaith yn ymwneud â chysylltiadau cymunedol a sicrhau bod gan bobl rwydwaith o gefnogaeth, gan leihau'r pwysau ar wasanaethau statudol.

Mae cysylltiadau cryf gyda'r bwrdd iechyd wedi'u ffurfio i sicrhau bod arfer sy'n ystyriol o drawma yn cael ei ymgorffori trwy gydol y gwaith. Cynigiwyd hwn

hefyd a'i gyflwyno i gydweithwyr o fewn rhannau eraill o'r cyngor, gan roi cysondeb yn y ffordd rydym yn cefnogi pobl sydd wedi profi trawma.


Mae dull Tîm CNPT yn parhau wrth ddarparu cefnogaeth, gan ddenu arbenigedd gan gydweithwyr ar draws y cyngor.

"Dydyn ni ddim yn gwybod sut y bydd ein bywydau yn troi allan yn y dyfodol, ond ar hyn o bryd rydyn ni'n ddiogel ac yn hapus. Rydym yn fythol ddiolchgar i'r holl bobl sy'n helpu pobl o Wcráin i gadw'n ddiogel, byw, gweithio a magu ein plant dan awyr heddychlon."

Teulu o Wcráin a gefnogir gan CNPT

Plant a Phobl Ifanc Digwmni sy'n Ceisio Lloches (UASC)

Mae Castell-nedd Port Talbot wedi parhau i dderbyn atgyfeiriadau ar gyfer UASC o dan y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol (NTS). Mae hwn yn faes arfer newydd i CNPT ac mae nifer y bobl ifanc wedi parhau i dyfu. Ynghyd â hyn, mae ein gwybodaeth yn y maes hwn hefyd wedi tyfu. Ar ddiwedd mis Mawrth 2024 rydym yn cefnogi 17 UASC, gyda 3 ohonynt mewn gofal maeth gyda'r gweddill yn cael eu cefnogi mewn llety â chymorth. Mae pob un o'r bobl ifanc yn 16+. Mae un o ofalwyr maeth ein Hawdurdod Lleol wedi cefnogi UASC ac mae ganddynt ddiddordeb mewn cefnogi lleoliadau yn y dyfodol.



Fel rhan o ymrwymiad Castell-nedd Port Talbot i Blant Digwmni sy'n Ceisio Lloches fel rhan o'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol, trefnwyd gweithgareddau a phrofiadau trwy gydol yr haf er mwyn helpu'r bobl ifanc i ymgartrefu yn eu hamgylchedd newydd, gwella eu hiaith, gofalu am eu lles, a'u haddysgu am ddiwylliant Cymru ac archwilio'r ardal. Gan weithio'n agos gyda Tîm UASC a phartneriaid sefydledig yn y gymuned, trefnodd y Swyddog Ymgysylltu a Chyfranogi ddigwyddiadau wythnosol drwy gydol gwyliau'r haf. Roedd y rhain yn cynnwys dringo creigiau yng Nghraig y Ddinas, cerdded trwy geunentydd, teithio trwy hafnau, arforgampau ar benrhyn Gŵyr a padlfyrddio. Trefnwyd ymweliadau â Champfa Gymunedol Bulldogs i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chefnogaeth emosiynol a lles a gynigir gan Dîm Bulldogs. Fe wnaeth yr holl weithgareddau helpu i feithrin perthynas â staff ac wrth symud ymlaen bydd Tîm UASC a'r Swyddog Ymgysylltu a Chyfranogi yn hwyluso ymgynghoriadau pobl ifanc i roi llais i'n UASC a gwella gwasanaethau a'n cynorthwyo i ddatblygu ein canllaw arfer.

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Mae cyfarfodydd **Pobl sy'n Ddiamddiffyn ar y Stryd MARAC** yn cael eu cydlynu gan y Tîm Diogelwch Cymunedol ac yn cael eu cadeirio gan Heddlu De Cymru. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob deufis i drafod rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, gan sicrhau bod gan bawb fynediad at y gwasanaethau mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion. Yn 2023/24 trafododd y grŵp **19** o achosion, gyda **8** ohonynt yn atgyfeiriadau newydd i'r fforwm. Mae nifer o bobl yn mynd i'r cyfarfodydd ac fe'u cefnogir yn dda gan bartneriaid, gydag ymgysylltiad da. Mae pryderon o hyd ynghylch argaeledd neu fynediad at gymorth iechyd meddwl, a'r diffyg llety addas sydd ar gael.

Mae **Grwpiau Datrys Problemau** yn parhau - un ar gyfer Castell-nedd a Phontardawe ac un ar gyfer Port Talbot. Mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol yn cynorthwyo gyda chydlynu'r cyfarfodydd hyn, tra bod Heddlu De Cymru yn cadeirio. Mae'r fforymau hyn yn caniatáu i ni, yr Heddlu a phartneriaid ddod â materion cymunedol parhaus i'r bwrdd, ar gyfer trafodaeth rhwngartneriaid a chynllun gweithredu. Yna mae materion a godir yma na ellir eu datrys yn cael eu huwchgysyfeirio i'r Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae'r grŵp yn helpu i lywio ymgynghoedd y Tîm Ymgysylltu â Diogelwch Cymunedol.

Y Gronfa Ffyniant Gyffredin – Yn ystod 2023/24 llwyddwyd i sicrhau £98,000 o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU i'n galluogi i barhau â'n darpariaeth 'yr Hangout' ar gyfer ieuenctid. Yn dilyn gwaith allgymorth gyda phobl ifanc, dywedon nhw wrthym eu bod am gael rhywle i gymdeithasu gyda ffrindiau, lle nad oedd unrhyw weithgareddau rhagnodedig, ond yn hytrach gwefrwyr ffôn, Wi-Fi, cerddoriaeth a bwyd. Gyda chyllid gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd roeddem yn gallu treialu 'Yr Hangout' gyda chymorth Cyfiawnder Ieuenctid, Heddlu De Cymru, y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Tîm 'Cadw'n Ddiogel'. Bydd y cyllid ychwanegol hwn hefyd yn ein galluogi i brynu uned symudol, i fod yn ymatebol i fannau problemus sy'n dod i'r amlwg o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ieuenctid, yn hytrach na bod ein gwasanaethau ar safle sefydlog. Bydd cyfran fach o'r arian hefyd yn cael ei defnyddio i ddatblygu banc bwyd sy'n cael ei redeg gan bobl ifanc, ar gyfer pobl ifanc. Bydd hyn yn galluogi pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau a gweithio tuag at achrediad, tra hefyd yn cael gwared ar y stigma y maen nhw'n teimlo sydd ynghlwm wrth ddefnyddio banc bwyd.

Strydoedd Mwy Diogel – Yn ystod y flwyddyn buom yn llwyddiannus gyda'n cais am gyllid Strydoedd Mwy Diogel y Swyddfa Gartref, gan sicrhau £51,000. Mae'r cyllid hwn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a lleihau troseddau meddiangar. Yr ardaloedd cymwys oedd y rhai â'r digwyddiadau uchaf o'r math hwn a gofnodwyd. Mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio i:

- Gyflogi dau farsial stryd yng nghanol tref Castell-nedd yn ystod penwythnosau
- Prynu pecynnau diogelwch yn y cartref ar gyfer ward Gogledd Castell-nedd
- Cyflwyno menter 'Fy Nhref Werdd', a weithredir gan Adferiad – gan ganiatáu i'w defnyddwyr gwasanaeth gyfrannu at weithgareddau cymunedol fel casglu sbwriel a datblygu gerddi cymunedol
- Dylunio a gweithredu ymgyrch 'Llwybrau Diogel Adref'

Ymgyrch Sentinel – Roeddem yn llwyddiannus yn ein cais am £34,000 i gefnogi gwaith Ymgyrch Sentinel, er mwyn sicrhau presenoldeb cynyddol mewn mannau problemus cydnabyddedig o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rhannwyd yr arian hwn rhwng Diogelwch Cymunedol, y Gwasanaeth Ieuenctid, a'r Tîm Cadw'n Ddiogel i ddarparu digwyddiadau ac ymgysylltu cymunedol, patrolau ar

y cyd, ac allgymorth. Derbyniodd Heddlu De Cymru gyllid hefyd i gynnal patrolau ychwanegol yn yr ardaloedd problemus, ac fe wnaeth ein rhan o'r cyllid ein galluogi i ategu presenoldeb ychwanegol yr heddlu, gyda chyllid yn parhau i 2024/25.

Wythnos Ymwybyddiaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - Cefnogodd y tîm Wythnos Ymwybyddiaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac annog dioddefwyr i adrodd digwyddiadau i'r cyfryngau cywir.

Cynhaliodd y tîm ddigwyddiadau ymgysylltu ar draws y fwrdeistref a chynnal ymgyrch cyfryngau cymdeithasol. Mae digwyddiadau partneriaeth yn ddefnyddiol iawn wrth siarad â llawer o aelodau'r cyhoedd a busnesau lleol. Daeth cydweithwyr o Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Tai Tarian, Coastal a Pobl i'r digwyddiadau hyn ynghyd â ni.

Cydlyniant Cymunedol

Mae ein Swyddog Cydlyniant Cymunedol o fewn Diogelwch Cymunedol yn helpu i weithredu Rhaglen Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru yn ein hardal leol, ochr yn ochr â chydweithwyr ar draws y rhanbarth yng Nghyngor Abertawe a Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Swyddogion yn sicrhau rhaglen ranbarthol o ddigwyddiadau i hyrwyddo cymunedau cydlynol, ac yn gweithio i leihau unrhyw densiynau cymunedol.

Dyma rai o ddigwyddiadau CNPT a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn:

- **Bore Coffi Windrush**

Cynhaliwyd bore coffi yn Llyfrgell Port Talbot i nodi 75 mlynedd ers Windrush. Rhoddodd y prif siaradwyr gyflwyniad ar hanes Windrush, ac yna sesiwn gelf a chrefft yn cynnwys gwneud cylch allweddi â baner.

- **Pride CNPT**

Cynhaliwyd penwythnos Pride cyntaf CNPT, gyda llawer o fusnesau lleol yn ymuno â digwyddiadau ar thema Pride dros y penwythnos gan gynnwys fflachdorfeydd, perfformwyr drag, cystadlaethau celf a dangosiadau ffilm. Roedd yna orymdaith hefyd ar lan môr Aberafan.

- **Panel 'Channel'**

Mae'r tîm yn parhau i gydlynu'r holl waith sy'n gysylltiedig â PREVENT ar gyfer yr Awdurdod Lleol, sy'n ceisio atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r tîm yn cydlynu cyfarfodydd misol Panel 'Channel' lle caiff unigolion o bryder lefel isel eu hatgyfeirio a'u darparu â chymorth ac ymyriadau priodol i leihau unrhyw risgiau. Mae hyn yn gweithredu fel Atal ac Ymyrryd yn Fuan, gan ategu'r gwaith y mae Heddlu De Cymru a Phlisma Gwrthderfysgaeth yn ei wneud gydag unrhyw unigolion risg uwch.

Mae atgyfeiriadau'n parhau i fod yn isel, ond ni allwn gymryd yn ganiataol bod hyn yn golygu nad oes unrhyw bryderon; mae'n rhaid i ni barhau i godi ymwybyddiaeth gyda staff a phartneriaid o'r pryderon i edrych amdanynt, a sut i atgyfeirio unigolion sy'n peri pryder i'r broses.

- Mae ein **Swyddog Cydlyniant Cymunedol** yn darparu cefnogaeth ddeuddydd yr wythnos i Gymdeithas Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol CNPT – gan eu cynorthwyo gyda cheisiadau cyllido, eu cyfarfodydd bwrdd, a datblygu cylchlythyr chwarterol.

Ymgysylltiadau

Mae'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn gweithio mewn partneriaeth i leihau ac atal troseddu yn eu hardal leol. Un o'r ffyrdd gorau i ni godi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd a mentrau atal troseddu yw ymgysylltu'n weithredol â'n cymunedau lleol pryd bynnag a lle bynnag y bo modd.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r tîm yn sicrhau bod rhaglen o ddigwyddiadau addas a sgysiau cymunedol yn cael eu cyflwyno mewn ardaloedd amrywiol o'r fwrdeistref.

Yn ystod 2023/24 trefnodd y tîm a/neu fynychu **43** o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned. Yn ystod y digwyddiadau hyn rydym yn hyrwyddo ymgyrchoedd a mentrau atal troseddu ac yn siarad â thrigolion am unrhyw faterion yn ymwneud â throsedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n effeithio arnynt.

Rydym yn defnyddio'r cyfle i siarad â thrigolion am Atal Troseddau, Cam-drin Domestig, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau Casineb, Llinellau Cyffuriau, Sgamiau, Tensiynau Cymunedol, Troseddau Busnes, Terfysgaeth.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth anecdotaidd o'r digwyddiadau hyn i lywio ein gwaith a'n hymgyrchoedd yn y dyfodol. Mae gwybodaeth hefyd yn cael ei adrodd yn ôl i unrhyw fforwm perthnasol fel Gorchwyl, Grwpiau Datrys Problemau, neu'r Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ei hun.

Mae'r tîm yn parhau i gynnal digwyddiadau 'Mwy Diogel' sy'n cael eu haddasu i'r ardal y maent yn cael eu cyflwyno ynddi. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gynnal chwech o'r digwyddiadau hyn, gyda chefnogaeth gan asiantaethau partner perthnasol i ymateb i unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg o droseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cynhaliwyd y digwyddiadau hyn yn; Nghwm Dulais, Llangatwg, Glyn-nedd, Traethmelyn, Ystalyfera, Aberafan. Ymwelir ag ardaloedd eraill yn ystod 24/25, gan ddechrau gyda 'Pontardawe Mwy Diogel'.

Mae'r tîm hefyd yn cyflwyno sgrysiâu i grwpiau cymunedol lleol i roi gwybodaeth am ddiogelwch yn y cartref ac i hyrwyddo ein Cynllun Teimlo'n Ddiogel, sy'n cynnig arolygon diogelwch yn y cartref ac eitemau diogelwch priodol i'r rhai sy'n agored i niwed, ar incwm isel a/neu sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig.

Cynhyrchodd y tîm gylchlythyrau 'Diogel a Gadarn' bob chwarter, a oedd yn cael eu rhannu â Chynghorwyr Lleol, aelodau o'n Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, asiantaethau partner a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'r cylchlythyrau hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o negeseuon ac ymgyrchoedd atal troseddau ymhellach, yn ogystal â rhoi gwybod i drigolion am unrhyw dueddiadau neu faterion sy'n dod i'r amlwg i fod yn ymwybodol ohonynt.

Mae'r tîm yn rhedeg tudalen Facebook Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel **sydd bellach wedi cyrraedd 2,900** o ddilynwyr yn ystod 2023/24.

CRIW HANFODOL yw prif ddiwyddiad y Tîm Diogelwch Cymunedol yn ein calendr blyneddol. Mae **1,600** o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld â ni dros gyfnod o bythefnos i dderbyn gweithdai diogelwch personol gan nifer o asiantaethau partner, cyn i'r bobl ifanc drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Ei nodau yw **annog dinasyddiaeth dda a lleihau** damweiniau, anafiadau a throeddau, ac amddiffyn pobl ifanc trwy addysg ac ymwybyddiaeth.

Nod y digwyddiad yw addysgu disgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus wrth wynebu perygl ac ymateb yn effeithiol i sefyllfaoedd brys a damweiniau .

Cynhaliwyd digwyddiad Criw Hanfodol 2023/24 yn Ffrwydwyllt House yn Nhai-bach.

Rhai o'r gweithdai a gynhaliwyd oedd:

- Perthynas Iach – cyflwynir gan Thrive, Gwasanaethau Trais Domestig Calan, a Hafan Cymru
- Diogelwch Dŵr – gan yr RNLI
- Diogelwch Rheilffyrdd – Network Rail
- Hylendid Bwyd – Gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Diogelwch Trydanol – Gan Western Power
- Diogelwch Tân – Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorrlewin Cymru
- Diogelwch Ar-lein – Heddlu De Cymru
- Cadw'n Ddiogel o Gwmpas Cŵn – gan y Dogs Trust
- Diogelwch Ffyrdd – gan Ddiogelwch Ffyrdd CNPT

Pawennau ar Batrôl

Rydym wedi bod yn cydlynu'r cynllun Pawennau ar Batrôl ers naw mlynedd, ac mae'n parhau i fynd o nerth i nerth.

Mae Pawennau ar Batrôl yn gofyn i gerddwyr cŵn weithredu fel ein llygaid a'n clustiau yn eu cymuned wrth iddynt fyd â'u cŵn am dro yn rheolaidd. Fel arfer cerddwyr cŵn fydd yn sylwi ar newid yn eu hardal leol, fel graffiti, tipio anghyfreithlon, goleuadau stryd diffygiol, ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn aml, cerddwyr cŵn yw'r cyntaf i gyrraedd lleoliad trosedd neu gallant fod yn dyst i drosedd sy'n digwydd. Rydym am gasglu'r holl wybodaeth hon a grymuso ein preswylwyr i adrodd am y materion y maent yn eu gweld.

Mae gan y cynllun dros **1,572** o aelodau, ac mae **111** o'r rheiny wedi cofrestru yn ystod 2023/24.

Mae aelodau'n derbyn cylchlythyr yn chwarterol neu yn cael y cyngor a'r wybodaeth ddiweddaraf, yn ogystal ag unrhyw dueddiadau trosedd neu faterion i fod yn ymwybodol ohonynt.

Mae'r tîm yn hyrwyddo'r cynllun yn rheolaidd trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac mewn digwyddiadau ymgysylltu rheolaidd. Mae'r cynllun yn cynnig ffordd 'cyffyrddiad ysgafn' i ni o ymgysylltu â'n preswylwyr am faterion mwy difrifol, na

fyddant efallai'n eu trafod fel arall, megis cam-drin domestig neu droseddau casineb.

Mae gan ein tudalen Facebook Pawennau ar Batrôl **1,500** o ddilynwyr, gyda rhai negeseuon unigol yn cyrraedd cymaint â **70,000** o bobl.

Yn ystod y flwyddyn roeddem yn gallu defnyddio rhywfaint o gyllid Tynhau Diogelwch y Targed i roi eitemau diogelwch personol unigryw i'n haelodau. Mae'r rhain yn gwobrwyo aelodau am eu teyrngarwch a'u cefnogaeth, ond maent hefyd yn gymhellant i annog aelodau newydd i gofrestru.

Gwnaethom hefyd lansio'r ymgyrch '**Parchu'r Tennynd**' mewn ymateb i newidiadau deddfwriaethol yn ymwneud â rhai cŵn peryglus, ac adborth gan ein trigolion lleol am eu teimladau ynghylch diogelwch pan fyddant allan yn y gymuned. Mae'r ymgyrch hon wedi cael derbyniad da ac wedi cael cefnogaeth dda gan gynghorwyr lleol.

Partneriaeth Lleihau Troseddau Busnes

Mae'r Bartneriaeth Lleihau Troseddau Busnes yn rhan o'r Tîm Diogelwch Cymunedol ac mae'n ddull partneriaeth i helpu i leihau troseddau yn erbyn busnesau yn ein hardaloedd yng nghanol ein trefi. Mae hon yn bartneriaeth gyda Heddlu De Cymru, y Gwasanaeth Tân ac eraill. Gall busnesau canol y dref gofrestru ar gyfer ein cynllun am gost fechan, sy'n rhoi mynediad iddynt i Radio Storenet, ac ap sy'n rhoi gwybodaeth am y troseddwyd mwyaf cyson yn ein hardal. Gall aelodau'r cynllun wneud penderfyniadau ar wahardd troseddwyd cyson iawn o'u heiddo.

Cyflwynwyd ein teithiau cerdded misol i sicrhau ein bod yn weladwy i fusnesau lleol, ac fel eu bod yn cael cyfleoedd rheolaidd i'n gweld ac adrodd unrhyw bryderon a allai fod ganddynt, ar wahân i'r cysylltu arferol trwy ffôn neu e-bost.

Mae Grŵp Llywio'r Bartneriaeth Lleihau Troseddau Busnes, a gydlynir gan Ddiogelwch Cymunedol, yn parhau i sicrhau bod gennym gynllun sy'n addas i'r diben ac sy'n bodloni safonau'r Bartneriaeth Lleihau Troseddau Busnes Cenedlaethol.

Cartref Plant Diogel Hillside

Cartref Plant Diogel Hillside yw'r unig sefydliad diogel yng Nghymru o'i fath o hyd, gan ddarparu gofal sy'n ystyriol o drawma a gofal sy'n ymatebol i drawma i'r plant mwyaf agored i niwed, sydd wedi dioddef y trawma mwyaf, a gyda'r anghenion mwyaf cymhleth yng Nghymru a Lloegr.

Fel lleoliad therapiwtig, rydym yn darparu gofal i blant rhwng 10 a 18 oed o unrhyw ryw. Yn unol ag Amcan Strategol Corfforaethol yr awdurdod lleol, nod Hillside yw "Gwella lles plant a phobl ifanc" i rymuso "Pob un o'n plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau mewn bywyd, fel y gallant fod y gorau y gallant fod". Credwn fod creu cysylltiadau cryfach â phlant a phobl ifanc yn helpu i greu dyfodol gwell. Cyflawnir hyn trwy ddull sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd iach a diwallu anghenion sylfaenol.

Er mwyn parhau i dyfu fel canolfan ragoriaeth a chefnogi'r plant yn unol â hynny, rydym yn ymdrechu i'r holl staff gael eu hyfforddi i lefel diploma mewn trawma. O ganlyniad, bydd y plant yn teimlo eu bod yn cael eu caru ac yn ffynnu mewn cartref lle maent yn teimlo ymdeimlad o berthyn ac yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r Swyddog Ymgysylltu a Chyfranogi yn cydweithio â staff Hillside i sicrhau bod plant sy'n byw yno yn cael cyfle cyfartal i gael llais a chael eu gwrandio hefyd. Anogir y plant i lenwi holiaduron ar ddechrau a diwedd y cyfnod y maen nhw yno er mwyn helpu i wella gwasanaethau. Mae grŵp gweithredu person ifanc o'r enw LOVE wedi cael ei sefydlu gan staff Hillside i hyrwyddo hawliau plant. Ym mis Tachwedd 2023 gweithiodd pobl ifanc gydag Artist Gair Llafar i rannu eu meddyliau a'u teimladau a mwynhau nifer o heriau hwyliog. Mae staff Hillside yn blaenoriaethu lles drwy ddigwyddiadau hwyliog a diddorol. Yn fwy diweddar, gwisgodd yr holl staff a phobl ifanc i ddathlu Diwrnod y Llyfr.

Safon Ansawdd 4 -Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.

Mae hyn yn edrych ar sut rydym yn helpu pobl i ddysgu a rhyngweithio â phobl eraill fel y gallant fod yn rhan o'u cymunedau.

Ymgysylltu a Chyfranogi ar draws gwasanaethau Oedolion

Llyfrgell Pethau Sandfields

Wedi'i lansio ym mis Tachwedd 2023, datblygwyd Llyfrgell Pethau Sandfields i roi cyfleoedd gwirfoddoli go iawn i drigolion lleol, gyda llawer ohonynt ag anableddau corfforol, emosiynol neu iechyd meddwl, yr oeddent yn dweud oedd yn eu hannog i beidio â chael mynediad i gyfleoedd y tu allan i'w hardal leol.

Yn dilyn llwyddiant y sesiwn galw heibio/bore coffi Amlasiantaethol wythnosol a ddatblygwyd gan y Cydlynnydd Ardaloedd Lleol, ymgysylltodd pobl yn eu cymuned, ac o ganlyniad, datblygwyd hyder i symud ymlaen i gyfleoedd eraill yn y gymuned. Hyd yma mae dros 20 o bobl yn mynd i'r bore coffi ar ôl ymgysylltu â'u Cydlynnydd Ardal Leol. Mae'r cyfleoedd gwirfoddoli wedi bod yn bwnc trafod rheolaidd rhwng y Cydlynnydd Ardaloedd Lleol, staff y Llyfrgell a phreswylwyr. Trwy Gyd-gynhyrchu, trafodwyd a chytunwyd ar y cysyniad o Lyfrgell o Bethau gan ddefnyddio Sandfields (calon fyw y gymuned) fel y cyfleuster naturiol sy'n seiliedig ar le a fyddai'n anelu at annog trigolion lleol i fenthyg ystod o offer a fyddai nid yn unig yn helpu pobl mewn cymuned ddifreintiedig yn ystod argyfwng ariannol i fenthyca, nid prynu, ond yn ei dro, byddai'n helpu ein hamgylchedd trwy economi gylchol.





Gan weithio mewn partneriaeth ag Ysgol Gynradd Awel y Môr, y mae ei huchelgais i ddod yn ysgol sy'n canolbwyntio ar y gymuned, llwyddodd y Cydlynedd Ardaloedd Lleol (sydd wedi defnyddio ei gefndir Adfywio Cymunedol i helpu'r ysgol) i gael gafael ar gymorth ariannol i wireddu'r prosiect. Gan ymgysylltu â thrigolion lleol a gweithio mewn partneriaeth â Benthg Cymru, prynwyd

eitemau amrywiol, gan gynnwys ffrwdolchwr, strimiwr, glanhawr carped, peiriant torri gwrychoedd ac amryw o offer garddio ac offer llaw eraill.

Hyd yn hyn, mae 12 o drigolion lleol wedi defnyddio Llyfrgell Pethau Sandfields. Mae gennym chwe gwirfoddolwr sydd i gyd wedi cwblhau Hyfforddiant Trin â Llaw ac wedi cofrestru gyda rhaglen Ddiogel ac Iach y Cyngor. Mae'r prosiect hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Caffi Trwsio (Addysg Oedolion Cymru) a lansiwyd yn ddiweddar a fydd yn cynnal a chynnal Profion Offer Cludadwy (PAT) ar yr offer, tra bod ei lwyddiant wedi ennyn trafodaeth bellach ynghylch datblygu gardd gymunedol defnydd cymysg yn y llyfrgell. Mae Cam 1 wedi'i gwblhau'n ddiweddar diolch i gymorth Budd Cymunedol Tai Tarian. Mae gan y prosiect cyffredinol hwn deitl gweithredol '*Lend, Mend and Tend*'.

Prosiect Pontio'r cenedlaethau:Blychau Nythu

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol CBSCNPT 2020-24 yn amlinellu blaenoriaeth 5:2 – bydd ein cymunedau'n mwynhau mwy o gydlyniant cymdeithasol a chymunedol. Ers mis Rhagfyr 2022 mae'r Swyddogion Ymgysylltu a Chyfranogi wedi mynychu prosiect Sied Dynion yn Sgiwen yn rheolaidd. Nododd y Tîm y cyfle i gynnal prosiect pontio'r cenedlaethau



rhwng Sied Dynion a Phlant sy'n Derbyn Gofal yn y prosiect presennol '*Beaches 2 Beacons*' sy'n cynnwys gosod Blychau Nythu ym myd natur o amgylch Castell-

nedd Port Talbot. Torrodd aelodau'r Sied Dynion bren y newidiodd y Tîm Ymgysylltu a Chyfranogi i'r maint priodol fel y gallai'r Plant a'r Bobl Ifanc sy'n mynd i'r digwyddiadau *Beaches to Beacon* eu hadeiladu, gan arwain at Flwch Nythu a adeiladwyd gan yr Henoed a Phobl Ifanc a osodwyd yn ddiweddarach mewn gwahanol ardaloedd o amgylch yr Awdurdod Lleol. Cyfrannodd hyn at ymdeimlad o gyflawni ar y cyd, perthyn a chydlyniant cymunedol.

Datblygu Cymunedol: Cydlynwyr Ardaloedd Lleol a'r Tîm Cyswllt Cymunedol


Mae ein Cydlynwyr Ardaloedd Lleol a'n Tîm Cyswllt Cymunedol wedi parhau i ymgysylltu â phobl a chymunedau i leihau ynysigrwydd cymdeithasol a helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth. Mae hyn yn cynnwys:

- ✓ Cefnogaeth uniongyrchol Cydlynwyr Ardaloedd Lleol i **o leiaf dri Grŵp Cymunedol unigol** ar gyfer pob ardal yn wythnosol wrth iddynt ddatblygu
- ✓ Cafodd achosion tua **54 o unigolion** eu rheoli i gael mynediad i grwpiau cymunedol.
- ✓ Presenoldeb o leiaf **65 o grwpiau cymunedol eraill** ar draws y sir yn barhaus.
- ✓ Mae tua **450 o unigolion ychwanegol** yn cael mynediad at grwpiau wrth adennill eu hyder, sy'n ceisio cefnogaeth gan y Cydlynwyr Ardaloedd Lleol yn y grwpiau hyn yn ôl yr angen.
- ✓ Ar gyfartaledd, mae llwyth gwaith Cydlynwyr Ardaloedd Lleol wedi'i rannu **70/30 (1:1 yn erbyn Cymuned) er bod hyn yn amrywio yn ôl ardal a galw.**

Rhesymau dros atgyfeirio (Cydlynu Ardaloedd Lleol)


Rheswm	Canran
Ymgysylltu â'r Gymuned	20%
Unigrwydd/Ynysigrwydd	15%
Iechyd meddwl	8%
Materion corfforol / anabledd	7%
Hyder isel	7%
Gorbryder	5%
Tlodi bwyd	4%
Tai/digartref	4%

Gweithgaredd Gwasanaeth Cyffredinol Atal ac Ymyrraeth Gynnar (2023/2024)



	Cyfanswm
Nifer yr oriau gwirfoddoli a ddarparwyd	2279
Nifer yr atgyfeiriadau Cydlynu Ardaloedd Lleol newydd	617

Profiad



Mae gallu mynd allan eto yn wych - diolch yn fawr

Wedi fy nghefnogi i a'm plant a'm hwyrion yn ystod cyfnod anoddaf fy mywyd

Mae wedi bod yn wasanaeth gwych, diolch, a llawer o wybodaeth nad oeddwn yn gwybod amdano. Diolch byth nad oedd rhaid i mi




Safon Ansawdd 5 - cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach

Mae hyn yn ymwneud â helpu pobl i gyflawni perthynas iach gartref a chyda'r bobl y maent yn agos atynt.

Plant sy'n Derbyn Gofal

Mae nifer y Plant a Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi parhau i ostwng o flwyddyn i flwyddyn er 2012. O 472 ym mis Mawrth 2012 i 234 ar ddiwedd Mawrth 2024. (Nid yw'r ffigur hwn yn dangos nifer y bobl ifanc UASC sy'n cael eu lletya)



Rydym wedi parhau i adolygu'r cynlluniau ar gyfer ein plant sy'n derbyn gofal ac wedi sicrhau mai dim ond y plant hynny y mae angen gofalu amdanynt sy'n derbyn gofal. Rydym wedi buddsoddi ac yn parhau i fuddsoddi mewn ymyrraeth gynnar ac atal i sicrhau bod teuluoedd yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir sy'n atal risgiau a phryderon rhag gwaethygu. Rydym yn gweithio ar y cyd â theuluoedd mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i adeiladu gwytnwch ac atal problemau rhag gwaethygu. Pan fydd plant a phobl ifanc ar gyrion gofal, rydym yn adweithiol iawn yn ein hymateb i gymorth. Rydym yn sicrhau ein bod yn ystyried cynlluniau ac yn cefnogi sefydlogrwydd i blant a phobl ifanc y tu allan i'r system ofal lle bynnag y mae'n bosibl gwneud hynny. Mae hyn wedi bod yn allweddol wrth leihau'r boblogaeth plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, lle ystyrir ei fod yn briodol i roi plant a phobl ifanc mewn gofal, byddant yn parhau i wneud hynny. Cafodd yr holl dderbyniadau i ofal eu hystyried yn llawn gan y Panel Derbyniadau, gan ystyried buddiannau gorau a pha mor agored i niwed

oedd pob person ifanc unigol. Mae cyfarfodydd bob pythefnos yn cael eu cadeirio gan y Prif Swyddog i adolygu'r cynlluniau gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Ein nod yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu lleoli, gymaint â phosibl, yn eu cymuned eu hunain gyda gofalwyr maeth Castell-nedd Port Talbot. Pan ddaw plant a phobl ifanc i'n gofal ni, ein blaenoriaeth yw sicrhau eu bod yn cael eu diogelu rhag niwed. Fodd bynnag, os oes modd, rydym wedi ymrwymo i sicrhau eu bod yn gallu gadael ein gofal a chael eu haduno â'u teuluoedd pan fo'n ddiogel ac yn briodol i wneud hynny. Mae cynllunio gofal cynnar a chadarn yn sicrhau ein bod yn gweithio gyda theuluoedd yn rhagweithiol ac yn archwilio opsiynau ar gyfer plant a phobl ifanc yn dychwelyd adref yn ddiogel.

Panel Maethu

Mae'r Panel Maethu'n gwneud argymhelliad ynghylch a ddylid cymeradwyo darpar ofalwyr neu argymell cymeradwyo gofalwyr presennol yn barhaus yn dilyn cyflwyno adolygiad gofalwr maeth yn y panel. Mae'r argymhelliad hwn yn mynd i Swyddog Penderfynu yr Asiantaeth (Uwch Reolwr yn yr adran Gwasanaethau Plant). Maent naill ai'n cadarnhau neu'n gwrthod yr argymhelliad, a chyfeirir at hyn fel y 'Dyfarniad o Gymhwyster'. Os nad yw Swyddog Penderfynu yr Asiantaeth yn rhoi cymeradwyaeth mae gan yr ymgeiswyr yr hawl i herio'r 'dyfarniad o gymhwyster', naill ai'n gofyn am ddychwelyd i'r Panel fel bod yr achos yn cael ei glywed eto ar y sail bod gwybodaeth newydd neu wahanol y mae angen i'r panel ei hystyried, neu wneud cais trwy'r Mekanwaith Adolygu Annibynnol ar gyfer Cymru a fydd yn cynnal eu panel eu hunain yn annibynnol i'r Awdurdod Lleol ac yn rhoi eu hargymhelliad. Yna dychwelir canlyniad gwreiddiol y panel hwn i Swyddog Penderfynu yr Asiantaeth ar gyfer ei benderfyniad terfynol.

Ar hyn o bryd mae 13 o aelodau o'r panel ar y rhestr ganolog (heb gynnwys Cadeirydd y Panel). Mae hon yn cynnwys 7 aelod annibynnol o'r panel a 6 Gweithiwr Cymdeithasol. Mae Cadeirydd y Panel yn gymwys ar gyfer Gwaith Cymdeithasol.

Pontio o blentyndod i fod yn oedolyn

Gall y cyfnod pontio, o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, rhwng 14 a 25 oed fel arfer, gynnwys ystod eang o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar draws nifer o asiantaethau gwahanol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol, addysg ac iechyd. Mae sicrhau pontio di-dor o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion wedi bod yn her ond yn un yr ydym wedi ymrwymo i weithio tuag at ei gyflawni. Rydym yn gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar unigolyn, sy'n seiliedig ar gryfderau i gefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr i gyflawni eu canlyniadau personol.

Ar ddechrau 2020, fe wnaethom ddechrau adolygiad o drefniadau pontio yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot. Yn dilyn pandemig COVID-19 roedd yn amlwg bod cynnydd o ran bod yn agored i niwed, gydag effaith ar les emosiynol, diffyg cyfleoedd cymdeithasol a mwy o ynysigrwydd cymdeithasol.

Fel rhan o'r gwaith hwn, daeth yn amlwg nad oedd llwybr safonol ar gyfer pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion gyda dulliau amrywiol o fewn gwahanol dimau gwasanaethau oedolion/ardaloedd daearyddol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg i bobl ifanc nad oes ganddynt anabledd dysgu sydd wedi cael diagnosis.

Felly, er mwyn cefnogi pontio llwyddiannus i wasanaethau oedolion, gwnaed penderfyniad i reoli'r cyfnod pontio o fewn y Tîm Anabledd Cymhleth, gyda Gweithwyr Cymdeithasol pontio dynodedig. Roedd y newid yn ystyried sut rydym yn gwella ac yn darparu gwasanaeth cyson i alluogi person ifanc i bontio'n llwyddiannus i fod yn oedolyn. Fe wnaethom hefyd wella ein data i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu nodi pan oeddent yn 14 oed os oeddent yn debygol o fod angen cymorth gan wasanaethau oedolion yn y dyfodol. Mae hyn wedi ein galluogi i edrych ar yr adnoddau sydd ar gael ac sy'n ofynnol i ddiwallu'r angen hwn. Rydym hefyd wedi cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud o ran gwaith atal, ymyrraeth gynnar a'r cymorth y gall Cydlynwyr Ardaloedd Lleol ei roi yn y gymuned y tu allan i'r cyfraniad statudol.

Rydym wedi gweithio i nodi a mapio anghenion llety a gofal pobl ifanc sy'n pontio i lywio'r broses o gomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol. Bydd hyn yn ein galluogi i weithio tuag at ddatrysiadau ac i nodi bylchau mewn darpariaethau a llwybrau. Mae hyn wedi rhoi gwell dealltwriaeth i ni o'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n pontio.

Rydym wedi gallu cynnal asesiadau gallu ar y cyd yn gynharach i lywio cynllunio gofal. Mae cynllunio cynnar, gan rannu gwybodaeth trwy'r llwybrau sefydledig presennol. Mae cyfarfodydd pontio misol rhwng gwasanaethau plant ac oedolion ar gyfer rhannu gwybodaeth. Mae cyfarfod cydgysylltu â'r adran addysg mewn perthynas â phobl ifanc yn y cyfnod pontio, yn enwedig o Ysgol Maes Y Coed. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r adran Addysg mewn perthynas â'r datblygiad Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac yn mynychu'r grŵp addysg 16 a hŷn i ddatblygu gwasanaethau. Mae gwaith yn cael ei wneud mewn perthynas â datblygu sgiliau byw annibynnol plant a phobl ifanc.

Mae systemau ar waith i nodi pobl ifanc a fydd yn symud o Wasanaethau Plant i Wasanaethau Oedolion (yn 14 oed) ac i ddechrau eu cynnwys nhw a'u teuluoedd neu ofalwyr wrth gynllunio eu pontio erbyn 16 oed. Mae'r cynllunio llwybrau presennol hefyd er mwyn llywio blaenoriaethau comisiynu.

Ar hyn o bryd mae 40 o atgyfeiriadau ar agor i'r Anableddau Cymhleth ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed ac mae 86 o bobl ifanc rhwng 18-21 oed yn cael eu cefnogi (mae'r rhan fwyaf ohonynt, ond nid pob un, wedi cael eu cyfeirio trwy lwybr pontio). Mae 32 o bobl ifanc rhwng 18 a 21 oed yn hysbys ac yn cael eu cefnogi gan y Tîm Anableddau Dysgu Clinigol.

I rai pobl ifanc sy'n gadael gofal preswyl, nid symud i deulu maeth yw'r cynllun gofal cywir ar eu cyfer. Mae anghenion rhai pobl ifanc yn fwy addas ar gyfer darpariaeth tai â chymorth. Rydym wedi bod yn datblygu sgiliau byw annibynnol pobl ifanc yn barod ar gyfer hyn. Rydym wedi gweld rhai pobl ifanc yn camu-i-lawr yn llwyddiannus i'r trefniadau hyn. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal ymarfer digonedd lleoliadau ac yn ystyried yr opsiynau marchnad mewnol ac allanol a gomisiynwyd i ddarparu'r llety hwn i bobl ifanc 16 oed a hŷn.

Pwysau sy'n wynebu Gwasanaethau Plant

Digonedd Lleoliadau

Mae hyn yn ymwneud â chael digon o leoliadau maethu, preswyl a llety â chymorth i ateb y galw ac anghenion plant a phobl ifanc. Bydd y Cabinet yn cymeradwyo ein strategaeth gomisiynu lleoliadau diwygiedig sy'n cynnwys cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae gennym hefyd brosiectau trawsnewidiol ar y gweill i helpu i fynd i'r afael â'r her hon.

Dileu Elw o Ofal Plant

Daw ein her o effaith rhaglen Llywodraeth Cymru o ddileu elw o ofal plant. Mae darparwyr yn adrodd am ansicrwydd ynghylch beth fydd effaith y farchnad. Mae swyddogion yn monitro'r sefyllfa'n agos ac rydym yn gweithio'n rhanbarthol a chyda Llywodraeth Cymru i gofleidio'r agenda dileu elw yn llawn.

Cyllidebau

Mae'r sefyllfa gomisiynu yn un lle mae darparwyr gwasanaethau yn wynebu costau cynyddol tra bod ein cyllidebau o dan bwysau sylweddol. Mae hon yn her allweddol y bydd swyddogion yn ceisio rheoli'n effeithiol gyda darparwyr a gomisiynwyd.

Cymorth hyfforddi

Er mwyn adeiladu cymuned faethu wydn, mae'r Swyddog Hyfforddi wedi treulio amser yn datblygu rhaglen les newydd, sef "*Mindful Mondays*". Mae gan hon 30 pwynt dysgu byr, llawlyfr cwrs a dyddiadur myfyrio ar sgiliau hanfodol i rieni maeth i ddatrys teimladau o bryder ac emosiynau dwys a deimlir yn aml wrth fagu plant a phobl ifanc sydd wedi profi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thrawma. Mae'r hyfforddwr yn defnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau a ddysgwyd ar ôl cymhwyso fel Ymarferydd Trawma ac Iechyd Meddwl TISUK ym mis Mawrth 2023. Yn ogystal, mae'r swyddog hyfforddi wedi datblygu sesiwn hyfforddi newydd, unwaith eto i gefnogi gwytnwch rhieni maeth wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc y mae trawma, ymddygiad cymdeithasol ac emosiynol ac ymddygiad yn seiliedig ar iechyd meddwl yn effeithio arnynt, sef Deall Offeryn Effaith a Datrysiaid yr Asesiad Ymddygiad. Hefyd, cafodd y Tîm Maethu a'r Gwasanaeth Therapiwtig hyfforddiant ar ddefnyddio'r offeryn.

Safon Ansawdd 6 – Trwy weithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol, a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

Mae hyn yn ymwneud â helpu pobl i wella eu hincwm, elwa o fywyd cymdeithasol a chael lle addas i fyw.

Ymgysylltu â Landlordiaid Preifat mewn Tai a Chymunedau

Yn ddiweddar, cynhaliodd Tai a Chymunedau Gyfarfod Fforwm Landlordiaid Preifat mewn partneriaeth ag Iechyd yr Amgylchedd. Cynhaliwyd y digwyddiad i ymgysylltu â landlordiaid preifat yn CNPT ac roedd nifer o siaradwyr gwadd (Cymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Preswyl, Rhentu Doeth Cymru, Llywodraeth Cymru) yn bresennol. Cynhaliwyd y digwyddiad yng Nghanolfan Ddinesig Castell-nedd, gan weithio ar ddull cydweithredol gyda Chymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl a Rhentu Doeth Cymru i roi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad. Cymerodd dros 100 o bobl ran, cynnydd o'r chwech a fynychodd ddigwyddiad tebyg ychydig flynyddoedd yn ôl. Mae gan y sector rhentu preifat ran hanfodol i'w chwarae wrth inni gyflawni ein Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym ac mae'r digwyddiad hwn wedi rhoi llwyfan i ni ymgysylltu â landlordiaid mewn ffordd y maent am ymgysylltu â nhw, a'r camau nesaf yw mabwysiadu cam cydgynhyrchu/cynllunio gyda landlordiaid.

Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

Cynyddodd nifer y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a gwblhawyd i 293, cynnydd o 8% ar y 272 a gwblhawyd yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, cynyddodd yr amser a gymerwyd rhwng atgyfeirio a chwblhau o 245 diwrnod i 325 diwrnod wrth i rai swyddi hirsefydlog gael eu cymeradwyo o'r diwedd a'u cau.

Roedd contractwyr a oedd yn gwneud gwaith mwy yn dal i fod yn brysur iawn yn y farchnad dai breifat sy'n dal i achosi oedi o ran gwaith mwy yn dechrau ar y safle, tra bod gwaith llai fel addasiadau cawodydd yn cael eu cyflawni'n gyflym.

Mae'r cynnydd mewn costau deunydd adeiladu yn dal i gael effaith sylweddol ar y gyllideb, gydag estyniadau'n costio 50% yn fwy na chyn y pandemig, fel bod estyniadau mwy bellach yn fwy na'r gwerth uchaf am grant. Oherwydd hyn, mae llai o estyniadau yn y system.

Oherwydd cyfuniad o gynnydd yn y galw a'r cynnydd mewn costau, mae'r gwasanaeth eisoes yn dechrau penderfynu'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.

Mae'r gwasanaeth wedi derbyn llawer o ganmoliaeth gan ymgeiswyr lle mae'r addasiadau newydd wedi gwneud gwahaniaeth enfawr yn eu bywydau trwy wneud eu heiddo yn lle llawer mwy diogel iddynt fyw ynddo, neu mae'r addasiadau wedi'u gosod wedi rhoi mwy o annibyniaeth iddynt yn y cartref.

Opsiynau Tai

Yn 2023/24 gwelwyd cyfanswm o 2,460 o gyflwyniadau i'r gwasanaeth. O'r rhif hwnnw, arweiniodd 1085 at asesiad gyda 1,375 yn cysylltu â'r gwasanaeth am gyngor/ddim yn ddigartref ar y pwynt cyswllt.

Roedd rhif y cyflwyniadau cyffredinol 180 yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Nid oedd hyn yn annisgwyl gan fod rhoi Deddf Rhentu Cartrefi Cymru ar waith ym mis Rhagfyr 2022 wedi gweld cynnydd yn y galw oherwydd bod landlordiaid sector preifat yn gadael, fodd bynnag, roedd disgwyl i hyn fod wedi setlo erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf gyda llai o aelwydydd yn derbyn hysbysiad am y rheswm hwnnw.

Atal Digartrefedd

Arweiniodd tua 343 o asesiadau at ddyletswydd atal A66 fod yn ddyledus. O'r rheini, cafodd 210 o bobl eu hatal rhag bod yn ddigartref yn llwyddiannus a chyrhaeddwyd cyfradd llwyddiant gyffredinol o 60.9% am y flwyddyn o'i gymharu â tharged o 60%. Mae hyn yn gynnydd o 53.7% yn 2022/23. Roedd yr ataliaeth yn llwyddiannus oherwydd y canlynol:

- Llwyddodd 16 o ymgeiswyr i aros yn eu heiddo presennol
- Cafodd 73 eu hailgartrefu mewn llety Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig cyn mynd yn ddigartref
- Symudodd 3 i lety â chymorth
- Symudodd 43 i'r sector rhentu preifat
- Dychwelodd 11 adref neu symud i mewn gyda theulu/ffrindiau eraill
- Cafodd 64 fathau eraill o gefnogaeth

Llety Dros Dro

Mae niferoedd Llety Dros Dro yn parhau i gynyddu, gyda 233 o aelwydydd yn Llety Dros Dro ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Er nad yw'r niferoedd yn lleihau ar hyn o bryd, mae cyfartaledd o 7 aelwyd yr wythnos yn symud ymlaen o Lety Dros Dro i lety cynaliadwy, tymor hwy.

Ar hyn o bryd, yr arhosiad cyfartalog mewn Llety Dros Dro yw 39 diwrnod sy'n ostyngiad o 137 diwrnod ar ddiwedd 2022/23. Mae'n parhau bod nifer fach o breswylwyr Llety Dros Dro tymor hwy na ellir eu symud ymlaen oherwydd rhwystrau, ond mae gwaith yn mynd rhagddo i leihau'r rhwystrau hynny a sicrhau'r tebygolrwydd mwyaf posibl o ganlyniad llwyddiannus.

Ar hyn o bryd, mae 85% o aelwydydd â phobl sengl/oedolion a 15% o deuluoedd â phlant dibynnol. Mae hyn yn ostyngiad bach o'r flwyddyn flaenorol lle'r oedd teuluoedd yn cyfrif am 20% o'r holl aelwydydd Llety Dros Dro.

Mae cryn dipyn o waith hefyd wedi'i wneud i leihau dibyniaeth a defnydd gwestai ar gyfer teuluoedd. Ar ei brig ym mis Gorffennaf 2023 roedd 28 o deuluoedd, gan gynnwys 39 o blant mewn gwestai. Yn ystod yr un mis gosodwyd cyfanswm o 142 o blant ar ryw adeg mewn Llety Dros Dro. Mae teuluoedd mewn gwestai bellach mewn ffigurau sengl ac yn cael eu defnyddio am gyfnod byr yn unig tra bod uned wasgaredig yn cael ei pharatoi.

Unedau gwasgaredig

Er mwyn gallu lleihau'r ddibyniaeth ar westai, yn enwedig i deuluoedd, mae'n hanfodol ein bod yn cynyddu nifer yr unedau Llety Dros Dro a reolir gennym ni. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae hyn wedi bod yn cynyddu'n barhaus ac mae'r niferoedd bellach fel isod:

- 18 uned sy'n eiddo i'r cyngor
- 9 uned ar brydles fel hostelau
- 67 o unedau gwasgaredig ar brydles
- **Cyfanswm o 94 uned a reolir gan y cyngor**

Cyn Covid roedd yr unedau oedd ar brydles mewn ffigurau sengl felly roedd uchafswm o 34 uned wedi eu rheoli ar unrhyw adeg. Felly bu cynnydd o bron i 300% dros y blynyddoedd diwethaf ac yn ffactor sylweddol o ran lleihau'r defnydd o westai i deuluoedd.

Grant Tai Cymdeithasol

Y Grant Tai Cymdeithasol yw'r prif grant cyfalaf a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer darparu tai fforddiadwy. Fe'i defnyddir i ariannu cynlluniau tai sy'n diwallu anghenion a blaenoriaethau tai lleol fel y nodwyd gan yr Awdurdod Lleol. Mae Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am ddewis partneriaid eu cymdeithasau tai, sy'n cael eu talu i ddatblygu, perchnogi a rheoli'r tai fforddiadwy.

Dyma enghreifftiau o Gynlluniau Cymeradwy y Grant Tai Cymdeithasol:

- Rhent Cymdeithasol, rhent canolradd neu mewn rhai achosion deiliadaeth niwtral.
- Anghenion cyffredinol, pobl hŷn, cadeiriau olwyn wedi'u haddasu, tai â chymorth, gofal ychwanegol, Cymorth Prynu neu achub morgeisi.
- Adeiladu newydd, adsefydlu (neu gyfuniad) ac anheddau/eiddo gwag mewn bodolaeth.
- Amrywiaeth o lwybrau caffael yn amrywio o dendro confensiynol, dylunio ac adeiladu, a bargeinion pecyn i brosiectau parod oddi ar y silff.

Gan dybio nad oes unrhyw broblemau neu oedi annisgwyl, mae cynlluniau Grant Tai Cymdeithasol fel arfer yn cymryd tua 2-3 blynedd i ddatblygu o'r dechrau i'r diwedd, gyda Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn tynnu cyfran o'r Grant Tai Cymdeithasol a ddyrannwyd i brynu darn o dir (*caffael*) ym mlwyddyn 1, y gweddill yn cael ei dynnu ym mlwyddyn 2 a neu 3 (*adeiladu/rhan o daliad adeiladu*), gyda'r gwaith adeiladu yn cael ei gwblhau y flwyddyn ganlynol.

Ynghyd â'n cyllideb Grant Tai Cymdeithasol CNPT 2023/24 wedi'i dosrannu (£12.8m), hefyd fe wnaethom gais llwyddiannus am £9.4m ychwanegol mewn arian llithriad sy'n dod â chyfanswm y Grant Tai Cymdeithasol a ddyfarnwyd yn 23/24 i £22,227,302 o'i gymharu â £8,294,190 yn 22/23, cynnydd o tua £14m (+166%).

Ar hyn o bryd, rhagwelir y byddwn yn ariannu cyfanswm o 428 o gartrefi fforddiadwy trwy'r cynllun Grant Tai Cymdeithasol yn ystod y cyfnod 2024/25 i 2026/27.

Grant Ailgylchu Cyfalaf

Mae Grant Ailgylchu Cyfalaf yn Grant Tai Cymdeithasol sy'n cael ei ailgylchu gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, fel arfer ar ôl gwerthu tir neu eiddo. Mae pob cynllun yn destun enwebiadau digartrefedd o 50%.

Nid oes amserlen ar gyfer gwario Grant Ailgylchu Cyfalaf, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn annog Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i'w wario'n gynt yn hytrach nag yn hwyrach.

Gwariwyd £1.5m o'r Grant Ailgylchu Cyfalaf yn ystod 2023/24: Tua hanner o'r grant ar gyfer cynllun o fewn Cynllun Datblygu Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol 2023/24 a'r gweddill i brynu chwe eiddo o'r farchnad agored.

Y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro

Mae'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro yn darparu cyllid grant i Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gyflwyno llety tymor hwy yn gyflym i gefnogi'r rhai sydd mewn llety dros dro. Mae pob cynllun yn destun enwebiadau digartrefedd o 100%.

Derbyniodd CNPT oddeutu £2m trwy'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro yn y flwyddyn gan arwain at 20 o gartrefi fforddiadwy: 14 o Gaffaeliadau (*eiddo a brynwyd o'r farchnad agored*) a 6 Gwagle (eiddo Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig heb eu meddiannu am gyfnod).

Hawliau Lles

Mae'r Uned Hawliau Lles (yr Uned) yn adran arbenigol, sy'n delio â chefnogi pobl i hawlio'r Budd-daliadau Lles y mae ganddynt hawl iddynt. Mae'r Uned yn helpu trigolion lleol drwy hunan-atgyfeirio, Gwasanaethau Cymdeithasol neu wasanaethau cymorth eraill; darperir cymorth cyngor ar eu hawl i fudd-daliadau. Mae'r Uned yn cynnig llinell gymorth gyhoeddus 5 diwrnod yr wythnos, cymorth gyda llenwi ffurflenni a chynrychiolaeth mewn tribiwnlysoedd apeliadau; gall yr Uned roi cyngor ar hawlogaeth drwy ein gwasanaeth llinell gyngor neu yn un o'n 7 sesiynau cymhorthfa allgymorth sydd wedi'u lleoli ledled y fwrdeistref sirol.

Mae'r Uned hefyd yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Macmillan, sy'n darparu cyllid ar gyfer cynghorwyr budd-daliadau Macmillan.

Mae'r Uned wedi llwyddo i ennill gwobr safon ansawdd cyngori mewn cydnabod rhagoriaeth. Mae gan yr Uned bartneriaethau llwyddiannus sy'n gweithio gyda'n timau mewnol ac Aelodau Etholedig, ynghyd â sefydliadau trydydd parti amrywiol megis The Wallich, Thrive Women's Aid a'r Ganolfan Byd Gwaith. Mae gan yr Uned gyfradd lwyddiant o 90% wrth wyrddroi penderfyniadau mewn Tribiwnlysoedd apeliadau Budd-daliadau. Mae'r Uned wedi cynrychioli mewn 110 o dribiwnlysoedd budd-daliadau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r llinell gyngor yn hynod boblogaidd gyda dros 1,002 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn derbyn cyngor yn y flwyddyn ariannol 2023-24. Mae **837** o achosion ar agor i'r Uned, gyda dros **3,468** o achosion wedi'u hagor yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Mae Hawliau Lles wedi codi **£10,554,113.00** yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, sy'n fwy na'r arian y flwyddyn flaenorol o **£7,032,076.80** yn 2022-23, a **£6,708,763.50** yn 2021-22.

Yr Iaith Gymraeg

Parhaodd y Gwasanaethau Cymdeithasol i atgyfnerthu trefniadau mewn perthynas â'r Gymraeg a **Mwy na Geiriau**; Mae uwch-swyddogion y gyfarwyddiaeth yn gweithio gyda chydweithwyr corfforaethol i hyrwyddo a chefnogi gweithredu Safonau'r Gymraeg a datblygu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg y Cyngor 2023-28.

Ni dderbyniodd y Gyfarwyddiaeth unrhyw gwynion Iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn.

Sut rydyn ni'n gwneud yr hyn rydyn ni'n ei wneud

Mae hyn yn ymwneud â sut rydym yn cefnogi ein gweithlu, gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau a'n cynllunio ariannol, yn ogystal â'n trefniadau llywodraethu.

Ein gweithlu a sut rydym yn cefnogi eu rolau proffesiynol

Rydym yn parhau i gynnig dull cyfunol o hyfforddi ar draws Gwasanaethau Oedolion a Phlant, sydd wedi bod yn fuddiol wrth gefnogi recriwtio staff i'r sector, yn ogystal â datblygiad proffesiynol parhaus staff presennol i gefnogi eu hailgofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Rydym wedi parhau i godi proffil y gwahanol rolau ym maes Gofal Cymdeithasol ac wedi gweithio gyda Choleg Castell-nedd i gynnig cyfleoedd profiad gwaith i fyfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y Tîm Lles Cymunedol; atgyfnerthwyd eu profiad ymhellach gan fynediad at hyfforddiant arall sy'n cefnogi rôl Gweithiwr Gofal Cymdeithasol, megis Codi a Chario Cleientiaid.

Mae rhaglen hyfforddiant iechyd a diogelwch ar gael ar draws y Gyfarwyddiaeth sy'n caniatáu i staff ddysgu'r wybodaeth a'r sgiliau i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel yn eu gweithleoedd. Ar gyfer rhai cyrsiau, rydym yn parhau i gynnig dewis eDdysgu achrededig ar wahân i ddysgu wyneb yn wyneb neu'n defnyddio eDdysgu fel rhan o ddull cyfunol o ddarparu hyfforddiant i leihau'r amser y mae angen i staff fod ar gael mewn ystafell ddosbarth. Cynhelir asesiadau cymhwysedd yn y gweithle lle bo hynny'n bosibl, sef ffordd adfywiol newydd o sicrhau gwybodaeth a chymhwysedd dros ddulliau traddodiadol yn yr ystafell ddosbarth.

Yn y Gwasanaethau Oedolion, rydym yn parhau i sicrhau bod staff mewnol perthnasol yn cwblhau'r modiwl eDdysgu Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol, ac maent wedi bod yn mynychu gweithdy deuddydd ar gyfer Theori Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol ac Thechnegau Ymwahanu Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol. Mae hon yn rhaglen hyfforddi barhaus i gefnogi'r gwasanaeth o ran ansawdd a diogelwch ei ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys dull cyfunol o eDdysgu ac yna hyfforddiant Theori ac Ymarferol wyneb yn wyneb gyda rhywfaint o hyfforddiant pwrpasol ar gyfer unigolion a nodwyd y mae eu cyflwyniadau'n fwy cymhleth. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae **135 o staff** wedi derbyn hyfforddiant yn y maes hwn yn yr elfennau theori ac ymarferol.

Rydym yn parhau i gefnogi gwasanaethau mewnol a'n darparwyr a gomisiynwyd, gyda chyfres o gyfleoedd hyfforddi i sicrhau bod ganddynt fynediad at gyfleoedd hyfforddi amserol i wella sgiliau a gwybodaeth y gweithlu i'w galluogi i ddarparu safonau gofal da. Mae'r rhain yn amrywio o ddementia,

diogelu, cofnodi ac adrodd, i friwiau pwyso, gofal cathetr a meysydd gofal a chymorth eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae hyfforddiant dementia yn parhau fel maes ffocws ac mae cyfres o gyrsiau wedi'u nodi trwy ymgynghori â'r darparwyr a'r Tîm Mewngymorth Cartrefi Gofal i fynd i'r afael â'r hyn sydd ei angen arnynt i'w cefnogi. Mae'r Swyddog Hyfforddi yn y maes hwn wedi parhau i wella ei gwybodaeth a'i hymarfer i sicrhau bod hyn yn cael ei drosglwyddo trwy hyfforddiant i'r staff. Mae'r cyfle i Fapio Gofal Dementia yn parhau i fod ar gael, sy'n rhoi cynllun gweithredu i'r gwasanaeth fel bod staff yn gallu addasu sut maent yn darparu gofal a chymorth i unigolion sy'n byw gyda Dementia er mwyn osgoi methiant lleoli. Mae **163** o staff wedi cael hyfforddiant yn y meysydd hyn.

Yn ystod 2023/24 cafodd cyfanswm o 4,928 o leoedd hyfforddi eu defnyddio gan staff ar draws y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Yn y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc bu pwyslais parhaus ar ddull gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Gan ddefnyddio Model Ymarfer yn Seiliedig ar Gryfderau CNPT, 'Gweithio i gyflawni canlyniadau', datblygwyd hyfforddiant pwrpasol i wella dealltwriaeth ar y cyd o gymunedau a chryfhau gwaith cydweithredol a'r berthynas rhwng ymarferwyr amlasiantaethol.

Mae rhaglen hyfforddi wyth diwrnod newydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n seiliedig ar gryfderau wedi'i datblygu a'i chyflawni gan Weithwyr Cymdeithasol Ymgynghorol a Rheolwyr i gyfuno hyfforddiant presennol ar y dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, i gynnwys y model gwasanaethau integredig cymorth i deuluoedd, cofnodi achosion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, graddio, sgiliau gwaith uniongyrchol a chyfweld ysgogol. Mae mynychwyr wedi dweud eu bod wedi ei chael yn ddefnyddiol i ddatblygu sgiliau newydd o ran cyfweld ysgogol a'u rhoi ar waith rhwng sesiynau. Mae hefyd wedi helpu i roi eglurder ynghylch sut mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ac felly, gobeithio y bydd yn creu cysondeb ar draws y gwasanaeth.

Mae bron i 100 o weithwyr Gwasanaethau Plant wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant ar gynllunio gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Cynhaliwyd archwiliadau ffurfiol, a nodwyd gwahaniaeth amlwg gan staff a oedd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant, yn enwedig o ran llais yr unigolion sy'n cael eu casglu a'u symleiddio neu iaith lân yn cael eu defnyddio. Nodwyd mai dyma ddechrau'r broses, ac mae angen inni barhau i gynnig hyfforddiant a datblygu ar hyn, yn enwedig pan fydd y system MOSAIC newydd yn cael ei gweithredu.

Mae tua 16 o Weithwyr Cymdeithasol wedi cael eu hyfforddi yn y Model Newid Mwyaf Arwyddocaol gan Nick Andrew, Swyddog Datblygu Ymchwil ac Arfer ar

gyfer Datblygu Arfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth ym Mhrifysgol Abertawe. Hwyluswyd y dechneg adrodd straeon hon hefyd gan weithwyr cymdeithasol ymgynghorol mewn cynhadledd "Hyrwyddo Diwylliant Ymchwil" ar gyfer asiantaethau partner CNPT ym mis Tachwedd gydag 86 o bobl yn bresennol.

Mae hyfforddiant pellach wedi'i ddarparu mewn ymateb i argymhellion ynghylch gwaith gyda cham-drin plant yn rhywiol, darparwyd sesiynau ar fenywod sy'n cam-drin yn rhywiol, deall ac atal cam-drin plant yn rhywiol ar-lein, cam-drin rhwng brodyr a chwiorydd, a deall ac asesu'r gofalwr amddiffynnol yng nghyd-destun cam-drin plant yn rhywiol. Mae sesiynau penodol wedi'u cyflwyno'n uniongyrchol i rieni. Mae pedwar hyfforddwr wedi'u hachredu i ddarparu'r offeryn Goleuadau Traffig Ymddygiadau Rhywiol Brook a bydd cyflwyno'r offeryn ar gyfer Ymddygiad Rhywiol mewn plant a phobl ifanc yn dechrau yn ail hanner y flwyddyn yn dilyn hyfforddiant arbenigol ychwanegol ar gyfer 12 o arweinwyr ymarfer Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc o'r Ganolfan Arbenigedd ar gyfer Cam-drin Plant yn Rhywiol. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei atgyfnerthu gyda mynediad i'r offeryn electronig ac e-Ddysgu pellach.

Mae cyfres o hyfforddiant "ymarferwyr yn amddiffyn" Stop It Now!, Lucy Faithfull wedi'i gyflwyno i 113 o bartneriaid amlasiantaeth rhanbarthol. Y canlyniad oedd cefnogi rhieni ac ymarferwyr i ddeall y materion sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol, darparu gwybodaeth ac adnoddau i helpu i amddiffyn plant yn hyderus. Hefyd, i archwilio sut i gynnwys teuluoedd mewn atal camdriniaeth, datblygu gwybodaeth am ddechrau sgysiau i rieni a gofalwyr eu defnyddio gyda mwy o hyder wrth roi cyngor atal, ac annog ymarferwyr i ddefnyddio'r pecyn cymorth yn effeithiol yn eu rôl. Cafodd naw o weithwyr proffesiynol eu hyfforddi i gyflwyno'r rhaglen "rhieni yn amddiffyn" i rieni yn eu cymunedau.

Rydym hefyd wedi cymryd camau sylweddol i sicrhau bod Gwasanaethau Plant yn cynnwys gweithlu sy'n ystyriol o drawma. Aeth 48 aelod o staff i ddigwyddiad ar ysgolion a chymunedau sy'n ystyriol o Drawma ac Iechyd Meddwl. Mae wyth o weithwyr profiadol y Gwasanaethau Plant wedi cael eu hyfforddi gan Dr Sheena Webb o'r Tavistock Institute i gyflwyno gweithdai ar "Gweithio gyda rhieni sydd wedi profi trawma". Datblygwyd hyn fel ystyriaeth strwythuredig i gefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda rhieni sydd wedi profi trawma cymhleth a/neu barhaus.

Yn ystod 2023/24 cafodd cyfanswm o 1,701 o leoedd hyfforddi eu defnyddio gan staff ar draws y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Blant heb gynnwys asiantaethau annibynnol, trydydd sector neu bartner.

Addysg a Hyfforddiant Gwaith Cymdeithasol

Yn ystod 2023/24, rydym wedi darparu 44 o Gyfleoedd Dysgu Ymarferol ar gyfer Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol (lleoliadau) ar draws Lefelau 1-3 i fyfyrwyr o Brifysgol Met Caerdydd a Phrifysgol Abertawe. Mae hyn yn cynnwys 19 o fyfyrwyr sy'n cael eu symud o Gastell-nedd Port Talbot i'r rhaglen gradd gwaith cymdeithasol trwy'r Brifysgol Agored ar draws Lefelau 1-3. Mae timau gwaith cymdeithasol ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant wedi bod yn amhrisiadwy wrth gynnig profiadau lleoliad o ansawdd uchel ac, am yr ail flwyddyn yn olynol, rydym wedi cael digon o addysgwyr ymarfer mewnol, a olygai nad ydym wedi gorfod allanoli i addysgwyr ymarfer allanol annibynnol. Mae hyn oherwydd y gefnogaeth barhaus i'r Wobr Addysgu Ymarfer. Yn 2023/24 fe wnaethom gefnogi saith gweithiwr cymdeithasol i gyflawni'r wobr trwy Brifysgol Abertawe. Mae ein Cydlynnydd Addysg Gwaith Cymdeithasol wedi addysgu dwy sesiwn fel rhan o'r cwrs hwn. Cwblhaodd 14 o ymgeiswyr Addysgwr Ymarfer y cymhwyster ym mis Awst 2023 hefyd.

Mae'r holl weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso sydd wedi dechrau gyda CNPT eleni wedi cychwyn y Rhaglen Blwyddyn Gyntaf o Ymarfer. Maent hefyd wedi cael y cyfle i fynychu rhaglen hyfforddi i'r rhai sydd Newydd Gymhwyso a drefnwyd gan BASW.

Ymchwil, Datblygu ac Arloesi ar draws y Gyfarwyddiaeth

Mae ein gweithgaredd ymchwil, datblygu ac arloesi ar draws y gyfarwyddiaeth, a oruchwylir gan y Grŵp Strategol Ymarfer Ansawdd, yn rhoi hyder i'r adran, a rhanddeiliaid eraill, bod ei phrosesau a'i gwasanaethau yn cael eu rheoli'n dda. Mae'n dilysu'r defnydd cyson o weithdrefnau a safonau ac yn sicrhau bod gan staff yr wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau cywir i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn modd cymwys. Gwneir hyn trwy'r Fframwaith Ymarfer Ansawdd a Dysgu, sy'n nodi sut y bydd CNPT yn dysgu o'r holl weithgareddau a gwblhawyd i sicrhau bod plant, oedolion, teuluoedd a gofalcwyr yn cael eu cefnogi yn y ffordd iawn ar yr adeg iawn ac yn deall pa wahaniaeth a wnaed.

Mae'r fframwaith hwn yn rhoi lefel o hyder ynghylch darparu gwasanaethau a'r effaith gadarnhaol ar blant, oedolion, teuluoedd a gofalwyr yn CNPT, tra hefyd yn mesur effaith, megis pa wahaniaeth y mae CNPT a'i bartneriaid yn ei wneud. Ein hegwyddorion arweiniol ar gyfer ymgorffori'r Fframwaith Ymchwil a Dysgu yw:

- **Mae plant, pobl ifanc, oedolion, teuluoedd a gofalwyr wrth wraidd yr hyn a wnawn.** Rhaid canolbwyntio ymchwil, datblygu ac arloesi ar effaith a chanlyniadau ar gyfer y plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn ar eu taith trwy ein gwaith cymdeithasol a'n systemau diogelu.
- **Bydd y dull o Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn cael ei danategu gan Ymarfer Adferol ac awydd i archwilio a chyflawni arfer gorau.** Mae hyn yn golygu bod gweithgaredd yn cael ei wneud "gyda" staff, yn hytrach na "i" neu "ar eu cyfer", mewn ffyrdd sy'n meithrin perthynas ac yn cael eu nodweddu trwy barchu safbwyntiau'n gilydd, disgwyliadau uchel, cefnogaeth fawr, a herio mawr, i'n galluogi i ddysgu, gwella a newid.
- **Drwy gydol y prosesau ymchwil, mae barn plant, pobl ifanc, oedolion, teuluoedd a gofalwyr yn rhan annatod o wella ein gwasanaethau.** Byddwn yn ennill llais a straeon y rhai sydd wedi derbyn ein gwasanaethau ac yn cynnal paneli straeon i ddysgu, gwella a newid.
- **Bydd ein gwaith amlasiantaethol a chydweithredol gyda'n partneriaid, boed yn statudol neu'n drydydd sector, yn cael ei gyfoethogi, a lle bo'n ymarferol, byddwn yn eu cynnwys o fewn gweithgareddau dysgu fel adolygiadau ac archwiliadau dysgu.**
- Rydym yn ymgorffori diwylliant o ymarfer sy'n ystyriol o ymchwil gyda'r llwyddiant o hyrwyddo prosiect diwylliant ymchwil yn y Gwasanaethau Oedolion yn cael ei ailadrodd ar draws y Gyfarwyddiaeth.

Ein hadnoddau ariannol a sut rydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol

Mae cysylltiadau gwaith rhagorol rhwng arweinyddiaeth wleidyddol 'Cynghrair yr Enfys', Cynghorwyr a Swyddogion wedi'u cynnal, ac mae'r Gyfarwyddiaeth yn parhau i fwynhau'r cyngor, y gefnogaeth a'r arweiniad a ddarperir gan ei Chabinet ac Aelodau'r Pwyllgor ac, yn wir, y Cyngor ehangach. Mae gweithio mewn partneriaeth yn hollbwysig i gynllunio a chynaliadwyedd darparu gwasanaethau, ac mae'r Gyfarwyddiaeth yn gweithio'n agos gyda phartneriaid ar draws sefydliadau lechyd, y sector preifat a'r trydydd sector, yn ogystal ag awdurdodau lleol cyfagos.

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Mae'r rhagolygon ariannol tymor canolig dros y pum mlynedd nesaf yn hynod heriol. Mae'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn dal i deimlo effeithiau chwyddiant uchel a gyrhaeddodd uchafbwynt o 11.1% ym mis Hydref 2022. Gyda'r isafswm cyflog yn codi 9.8% yn 2024/25 mae'n ymddangos nad oes diwedd i'r cynnydd mewn costau sy'n wynebu'r Cyngor. Yn ogystal, mae'r Gyfarwyddiaeth yn gorfod cefnogi mwy o bobl â mwy o gymhlethdodau. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig presennol hyd at 2028/29 yn cynnwys codiadau cyflog a chwyddiant, pwysau ar y gwasanaeth na ellir ei osgoi a phwysau twf lleol sy'n deillio o ddemograffeg newidiol. Mae'r Cyngor wedi parhau i gefnogi'r Gyfarwyddiaeth yn ariannol gyda thwf sylweddol yn y gyllideb. Fodd bynnag, mae'n amlwg, heb gyllid ychwanegol sylweddol gan y llywodraeth ganolog yn y blynyddoedd i ddod, mae'r rhagolygon yn llwm, a bydd angen gwneud rhai penderfyniadau anodd ynghylch blaenoriaethu gwasanaethau.

Ar ôl ystyried cyllid tybiedig Llywodraeth Cymru dros y cyfnod 2024-2029, mae bwlch cyllido sylweddol yn parhau. Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â datblygu nifer o strategaethau i gau'r bwlch hwn.

Comisiynu

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Tîm Comisiynu wedi wynebu nifer o heriau o ran sefydlogrwydd y farchnad. Mae materion gyda staffio o fewn y sector gofal cymdeithasol yn parhau i ychwanegu pwysau at ein cefnogaeth Darparwr.

Yr effaith fwyaf oedd cau cartrefi, a arweiniodd at adleoli 68 o breswylwyr i gartrefi gwahanol o fewn y fwrdeistref sirol.

Wrth i'r farchnad barhau i ddangos tystiolaeth o ansefydlogrwydd, mae Swyddogion yn gweithio ar dynhau trefniadau cytundebol gyda'n Darparwyr i gryfhau ein goruchwyliaeth ar faterion cynaliadwyedd a'n gallu i ymateb yn rhagweithiol i fethiant posibl yn y farchnad.

Mae rhaglen Ailgydbwysu gofal a chymorth Llywodraeth Cymru, yn cydnabod y pwysau parhaus ar Awdurdodau Lleol i reoli'r Farchnad Darparwyr allanol ac yn argymhell ailgydbwysu gwasanaethau gofal cymdeithasol gan ystyried dod â gwasanaethau yn fewnol.

Mae comisiynu wedi cefnogi'r agenda hwn trwy ystyried opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau ar gyfer adnoddau fel rhan o'n proses cynllunio busnes. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cyflwyno'r achos busnes i ddod â gwasanaeth Lleoliadau Teuluol i Oedolion yn fewnol, a gafodd ei drosglwyddo yn ôl i'r Cyngor ym mis Mai 2024.

Yn ogystal â hyn, bydd Comisiynu yn cefnogi gyda'r rhaglen drawsnewid, sy'n cynnwys mewnnoli cartref preswyl Trem y Glyn ac arallgyfeirio'r opsiynau gwasanaeth sydd ar gael ar gyfer Gwasanaethau Oedolion.

I Blant a Phobl Ifanc, mae'r ffocws wedi bod ar gryfhau ein cefnogaeth i'r rhai sy'n gadael gofal, pobl ifanc sy'n wynebu digartrefedd a dileu elw o ofal preswyl plant.

Bydd ein prosiect cyntaf ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal yn cael ei gyflwyno ym mis Gorffennaf 2024. Bydd y prosiect yn cefnogi'r rhai sy'n gadael gofal i reoli eu tenantiaeth eu hunain, datblygu sgiliau byw'n annibynnol ac yna symud ymlaen i fyw'n annibynnol. Bydd achos busnes sy'n nodi opsiynau ar gyfer darparu cartref preswyl i Blant yn fewnol yn cael ei gyflwyno eleni.

Ar draws gwasanaethau Oedolion a Phobl Ifanc, rydym wedi adolygu ein gwasanaethau cymorth tai a digartrefedd, a dros y flwyddyn nesaf byddwn yn gwneud argymhellion ar unrhyw ofynion ailfodelu. Yn ogystal â hyn, rydym yn datblygu prosesau mewnol i gefnogi atgyfeiriadau symlach at gymorth tai.

Rhaglen Trawsnewid

Ar draws y gyfarwyddiaeth, mae Swyddogion yn gweithio ar raglen drawsnewid i fynd i'r afael â'r diffygion o fewn Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai.

Mae'r rhaglenni trawsnewid yn rhaglen uchelgeisiol o waith i Ailgydbwyso Gofal Cymdeithasol ac ailfodelu gwasanaethau. Mae'r rhaglen yn cynnwys datblygu a mewnnoli gwasanaethau gofal a chymorth ac arallgyfeirio gwasanaethau.

Enghraifft o hyn yw mewnnoli ein hadnoddau ar gyfer ein gwasanaeth Lleoliadau Teuluol i Oedolion, a fydd yn cael ei arallgyfeirio i gefnogi carfan ehangach o bobl, gan gynnwys oedolion hŷn â dementia ac oedolion ag anghenion cymorth iechyd meddwl.

Ein gwaith partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd

Llywodraethu

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol 2016, a ddatblygwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol. Er mwyn cydymffurfio â'r Fframwaith, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sy'n esbonio'r prosesau a'r gweithdrefnau ar waith i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Mae Uwch Swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth yn chwarae rhan weithredol wrth gynhyrchu a monitro'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Cwynion a Sylwadau

Mae'r Weithdrefn Cwynion a Sylwadau Gwasanaethau Cymdeithasol yn seiliedig ar y canllawiau arfer da a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014. Mae'r weithdrefn ar gael i sicrhau bod gan bawb sy'n gwneud cwyn am wasanaethau cymdeithasol yng Nghastell-nedd Port Talbot yr hawl i gael gwrandawriad priodol. Rhaid diogelu a hyrwyddo eu buddiannau pennaf. Rhaid gwrandao ar eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau. Dylid datrys eu pryderon yn gyflym ac yn effeithiol.

Derbyniodd y Tîm Cwynion **70** o gwynion Cam 1 ffurfiol Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2023-24 ar draws Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau a Rheoli Busnes (gan gynnwys cwynion corfforaethol); gyda **thri** chwyn Cam 2 arall. Mae gweithgaredd wrth ddelio ag achwynwyr ar sail 'anffurfiol' yn llawer mwy, gyda'r Tîm yn rhagweithiol wrth gefnogi Rheolwyr i gyflawni canlyniadau boddhaol i ddefnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Cofnododd/Adroddodd y Tîm hefyd **114 achos o ganmoliaeth** a dderbyniwyd ar draws y Gyfarwyddiaeth.

Bwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg



Mae'r Bwrdd Diogelu Iau yn cyfarfod bob hanner tymor er mwyn penderfynu ar bynciau diogelu yr hoffai'r aelodau eu hyrwyddo drwy gydol y flwyddyn. Cynhelir cyfarfodydd mewn Ysgolion Uwchradd ac maent yn denu nifer dda o fyfyrwyr o bob rhan o Gastell-nedd Port Talbot.

Ar hyn o bryd mae ysgolion yn cymryd rhan mewn prosiectau i godi ymwybyddiaeth o Aflonyddu Rhywiol. Bydd y prosiectau hyn yn arwain at Wythnos Genedlaethol Diogelu 2024. Yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu ym mis Tachwedd 2023 cynhaliwyd digwyddiad hyrwyddo yn Ysgol Maes y Coed i lansio fideo a bwrdd *widgit* Iaith Arwyddion Prydain i addysgu staff rheng flaen y gwasanaeth brys i gyfathrebu â phlant a phobl ifanc ag anawsterau cyfathrebu. Roedd Heddlu De Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn rhan o'r digwyddiad. Roedd y myfyrwyr yn mwynhau archwilio'r cerbydau ac mae gwasanaethau wedi ymrwymo i rannu'r adnoddau.

[Edrych ymlaen: Ein blaenoriaethau ar gyfer 2024-25](#)

Mae gofal cymdeithasol yn wynebu blwyddyn heriol arall eto gyda phwysau cyllidebol cynyddol. Mae ffyrdd newydd a chynaliadwy o weithio yn hollbwysig er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol a chymorth pobl fregus. Felly, rydym yn nodi'r canlynol fel ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod:

Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

- Bydd gan bob person ifanc sy'n gadael gofal fynediad at lety cynaliadwy a phriodol.
- Bydd ystod ehangach o leoliadau gofal maeth ar gael a fydd yn cynnwys cyfleoedd i ofalwyr cyflogedig gefnogi plant sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.
- Bydd pobl ifanc y nodir bod ganddynt anghenion gofal a chymorth pan fyddant yn cyrraedd oedolaeth, yn cael eu cefnogi i'r Gwasanaethau Oedolion yn briodol.
- Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu diogelu'n effeithiol.

Gwasanaethau Oedolion

- Bydd mwy o bobl yn teimlo eu bod yn rhan o wneud penderfyniadau a'u cyflawni, ac wedi'u grymuso i ddatblygu atebion lleol i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio arnynt yn lleol.
- Bydd ystod ehangach o wasanaethau cymunedol yn gallu cefnogi anghenion unigryw pobl ag anableddau ac anghenion cymhleth sy'n defnyddio ystod o adnoddau cymunedol ac sy'n eu galluogi i fwynhau a chyfrannu at fywyd cymunedol.
- Bydd anghenion pobl ag anghenion gofal a chymorth cymhleth yn cael eu diwallu mewn ffyrdd mwy priodol drwy ystod eang o wasanaethau tai a chymorth.

Gwasanaethau Tai

- Byddwn wedi cryfhau ein partneriaethau â datblygwyr tai ac mae'r trefniadau hynny'n darparu mwy o dai o ansawdd, fforddiadwy a charbon isel.
- Bydd mwy o bobl yn cael eu hatal rhag mynd yn ddigartref a bydd llai o bobl yn byw mewn llety brys a dros dro.
- Mae eiddo gwag wedi cael eu haildefnyddio trwy'r Grant Eiddo Gwag, gan helpu i fynd i'r afael â'r galw am dai.

Atodiad - Data sy'n cefnogi perfformiad ar gyfer y safonau ansawdd

Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad	Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad	Ebrill 22 – Mawrth 23	Ebrill 23 – Mawrth 24
P124	Canran yr asesiadau a gwblhawyd o fewn 42 diwrnod ar ôl i rywun gael ei atgyfeirio	97.00%	97.10%

Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad	Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad	Ebrill 22 – Mawrth 23	Ebrill 23 – Mawrth 24
Mesur 20a	Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod Ailalluogi ac sydd â phecyn gofal llai ar ôl ei gwblhau	18.8%	19.0%
Mesur 20b	Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod Ailalluogi nad oes angen pecyn gofal pellach.	70.9%	67.8%
Mesur 21	Y cyfnod cyfartalog o amser mewn diwrnodau calendr mae oedolion (65+ oed) yn cael eu cefnogi mewn gofal preswyl	786	825
Mesur 22	Oedran cyfartalog oedolion sy'n mynd i gartrefi gofal preswyl	84	84
P130	Canran y plant a gafodd eu gweld gan ddeintydd o fewn 3 mis o dderbyn gofal	21.6%	35.6%
P131	Canran y plant sy'n Derbyn Gofal ar 31 Mawrth a gofrestrodd gyda meddyg teulu o fewn 10 diwrnod gwaith iddynt gael eu lleoli	85.2%	81.9%

Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad	Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad	Ebrill 22 – Mawrth 23	Ebrill 23 – Mawrth 24
Mesur Newydd P127	Canran ail-gofrestru plant ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol	14.7%	0.0%
Mesur Newydd P128	Y cyfnod cyfartalog (mewn diwrnodau) ar gyfer pob plentyn a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn	269.2 diwrnod	228 diwrnod

Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad	Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad	Ebrill 22 – Mawrth 23	Ebrill 23 – Mawrth 24
Mesur Newydd P132	Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi newid ysgol unwaith neu fwy, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oedd oherwydd trefniadau pontio, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth	3.6%	1.9%

Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad	Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad	Ebrill 22 – Mawrth 23	Ebrill 23 – Mawrth 24
Mesur Newydd P133	Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael eu lleoli tair gwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn	9.30%	6.80%

Cyfeirnod Dangosydd Perfformiad	Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad	Ebrill 22 – Mawrth 23	Ebrill 23 – Mawrth 24
P125	Canran y plant sy'n cael eu cefnogi i fyw gyda'u teulu	70.90%	67.80%

P134	Canran yr holl bobl sy'n gadael gofal sydd wedi cwblhau o leiaf 3 mis o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn ystod y 12 mis diwethaf ers gadael gofal	63.3%	63.6%
P134	Canran yr holl bobl sy'n gadael gofal sydd wedi cwblhau o leiaf 3 mis o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn ystod y 24 mis diwethaf ers gadael gofal	66.6%	53.0%
P135	Canran y bobl sy'n gadael gofal sydd wedi profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn	3.52%	2.90%